# CYNNWYS


**ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2008 — MAWRTH 2009 ............ 2**

GGAT 1 Rheoli Treftadaeth ........ 2

GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol Rhanbarthol a GGAT 92 Cefnogi Cynllun Datblygu Lleol ........ 9

GGAT 61 Pennu Nodweddion Tirwedd Hanesyddol: Gwaith Gwefan Llancarfan a Thirlun Hanesyddol Gwy Isaf ........ 11

GGAT 67 Tir Gofal ........ 11

GGAT 80 Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru (Blwyddyn Pump) ........ 12

GGAT 89 Aneddiadau Cynhanesyddol a Rhufeinig a safleoedd eraill ........ 15

GGAT 91 Arolwg Trefol Aberdâr ........ 16

GGAT 93 Cloddiad ac Arolwg Lloc a Safle Rhufeinig Church Hill ........ 18

GGAT 94 Ysgafell Fawn Brynmill ........ 20

GGAT 95 Bragdy Vulcan, Merthyr Tudful, Cofnodi Brys ........ 21

**ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2009 — MEDI 2009 ........ 23**

GGAT 67 Tir Gofal ........ 23

GGAT 80 Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru (Blwyddyn Chwech) ........ 23

GGAT 89 Aneddiadau Cynhanesyddol a Rhufeinig a safleoedd eraill ........ 25

GGAT 96 Castell Ystumllwynarth ........ 25

**BLAENRAGLEN HYDREF 2009 — MAWRTH 2010 ..** Error! Bookmark not defined.

GGAT 67 Tir Gofal ........ **Error! Bookmark not defined.**

GGAT 80 Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru (Blwyddyn Chwech) ........ **Error! Bookmark not defined.**

GGAT 89 Aneddiadau Cynhanesyddol a Rhufeinig a safleoedd eraill **Error! Bookmark not defined.**

GGAT 96 Castell Ystumllwynarth ........ **Error! Bookmark not defined.**

**CONTRACTAU GWYDDONOL A ARIANNWYD GAN CADW ........ 30**

**ADOLYGIAD ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDI ........ 30**

**ATODIAD 1 — ADOLYGIAD O GYFLAWNI AMCANION LICC ........ 31**

**ATODIAD 2 — YSTADEGAU CYNLLUNIO 2008—2009** Error! Bookmark not defined.

# ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2008 — MAWRTH 2009

## GGAT 1 Rheoli Treftadaeth

Mae'r adran ganlynol yn gysylltiedig â gofynion a manyleb waith Cadw ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli treftadaeth amrywiol yn Ne Ddwyrain Cymru.

***Gwybodaeth sy'n ymateb i geisiadau Cadw gan gynnwys data i gefnogi prosiectau yn arbennig y Rhaglen Gwella Cofrestru***

Drwy'r wybodaeth fanwl a geir yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhanbarthol, bu'r Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo Cadw mewn llawer rhan o'i swyddogaethau statudol ei hun gan gynnwys y rhaglen gwella cofrestru. Gwaith arbennig o bwysig eleni fu cofrestru henebion yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd, ac mae staff yr Ymddiriedolaeth wedi darparu nifer o argymhellion yn hyn o beth ac wedi mynd gydag Arolygydd Cynorthwyol Cadw ar ymweliadau safle.

***Gwybodaeth CAH i ymholwyr yn unol â 'Chanllawiau ar gyfer Mynediad a Chodi Tâl' yr Ymddiriedolaeth (ac eithrio paragraff 11)***

Bu Adran Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth yn rhoi gwybodaeth a chyngor archeolegol i unigolion a chymunedau yn y rhanbarth ar drywydd eu prosiectau a'u diddordebau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd 241 o ymholiadau o'u cymharu â 266 ar gyfer y flwyddyn flaenorol, a chafwyd 46 o ymweliadau â swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth i edrych ar ffeiliau manwl o wybodaeth bellach y CAH. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn llai na'r llynedd, ond yn eithaf tebyg i ffigurau ar gyfer blynyddoedd diweddar; fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr ymgynghoriadau masnachol wedi cynyddu, er gwaethaf y dirywiad economaidd. Mae'r cyfleuster hwn ar gyfer ymweld â'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol a dyma un o gydrannau allweddol datblygiad yr Ymddiriedolaeth fel canolfan ranbarthol ar gyfer adnoddau a gwybodaeth archeolegol. Er ei fod yn waith llafurus bob amser, mae'n aml yn fan cyswllt cyntaf a all ddwyn buddion sylweddol iawn yn y dyfodol.

| **Blwyddyn** | ***Cyfanswm yr ymgynghoriadau** | **Masnachol** | **Cyhoeddus** | **Cyfanswm yr ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth** |
|---|---|---|---|---|
| 2004-2005 | 262 | 96 | 166 | 67 |
| 2005-2006 | 349 | 103 | 246 | 74 |
| 2006-2007 | 273 | 97 | 176 | 38 |
| 2007-2008 | 266 | 110 | 156 | 68 |
| 2008-2009 | 241 | 144 | 97 | 46 |

*Ac eithrio ymgynghoriadau ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Diwydiant Coedwigaeth a Chyfleustodau Cyhoeddus ac ati yr adroddir amdanynt yn rhywle arall.

***Cyngor ar Geisiadau am Ganiatâd Heneb Gofrestredig***

Fel ymgynghorai cydnabyddedig, cafodd yr Ymddiriedolaeth 20 o ymgynghoriadau. Dim ond ar bedwar o'r rhain yr oedd angen ymatebion: roedd y gweddill yn rhoi gwybod am benderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru am geisiadau.

***Ymweliadau safle/cyfarfodydd gan staff curadurol***

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd amrywiaeth eang o bartïon, yn sefydliadau ac yn unigolion preifat, i'r Ymddiriedolaeth ymweld â safleoedd naill ai i roi gwybodaeth

am natur y safle, neu i gynghori ar faterion rheoli. Croesawn yr ymweliadau hyn, yn ffordd o helpu i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, ac i hybu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddysgu gydol oes a chynwysoldeb, a'r amcan a ddatganodd yr Ymddiriedolaeth sef addysgu'r cyhoedd mewn archeoleg.

Un o'r themâu arwyddocaol mewn ymweliadau safle oedd ymchwilio i strwythurau yr adroddwyd eu bod yn erydu allan o'r blaendraeth. Yn ystod y flwyddyn, bu staff yr Ymddiriedolaeth yn ymweld â maglau pysgod ym Mae Abertawe i'r de o Neuadd y Sir, llwybr ym Mrynmill, a rhes o stanciau a'r goedwig soddedig ym Mhorth Einon. Canlyniad yr asesiad o lwybr Brynmill oedd rhaglen fechan o gofnodi brys a ariannwyd gan Cadw (GGAT 94 yr adroddir amdani'n nes ymlaen yn yr adolygiad hwn). Ymhlith y safleoedd eraill yr ymwelwyd â hwy i asesu a gwneud argymhellion rheoli oedd ceuffordd pwll glo a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Nyfnant, strwythur carreg posibl ar Harding's Down, adfeilion adeilad yn Widegate (Pl 1), y mae gwaith atchweliad map yn awgrymu eu bod efallai'n adfeilion erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a sylfeini adeilad yn Llanfadog.



*Pl 1 Adeiladau Ôl -ganoloesol Cynnar, Widegate, Gŵyr*

***Gwybodaeth a chymorth cysylltiedig â'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru***

Parhawyd i ddarparu cyswllt a chyngor dilynol yn ôl y gofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru o ran y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol.

Yn aml, ystyrir materion tirweddau hanesyddol yn fanwl yn rhan o'r prosesau cynllunio defnydd tir. Darparwyd gwybodaeth hefyd am Dirwedd Hanesyddol y Rhondda i'r BBC mewn cysylltiad â chyfres ar ddatblygiad Prydain, ac anfonwyd gwybodaeth am Landmap Blaenau Gwent at gymdeithas leol gan gynnig prosiect cymunedol ym Mrynmawr.

***Cyngor i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys polisïau cynllun strwythur a lleol***

Gwnaeth cyrff Awdurdod Lleol ddau ar bymtheg o ymholiadau CAH eleni. Isel o hyd yw nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyngor y tu allan i'r broses gynllunio, gyda rhai awdurdodau lleol yn llawer mwy parod nag eraill i elwa ar y gwasanaeth a gynigia'r Ymddiriedolaeth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddarparu gwybodaeth am archaeoleg eu tiroedd comin i Gaerffili ac Abertawe, ac ar Gwm Elái i Gyngor Sir Caerdydd a Dyffryn Clun i Abertawe.
Darparwyd gwybodaeth a ffotograffau hefyd i CBS Caerffili ar gyfer arddangosfa newydd yn Amgueddfa Winding House, Elliotstown. Cynhaliwyd trafodaethau â Chyngor Dinas Abertawe o ran gosod byrddau dehongli newydd a dirywiad a chyflwr y wal sydd o amgylch y Tŷ Halen ym Mhorth Einon. Bu staff yr Ymddiriedolaeth hefyd yn mynychu cyfarfodydd ynghylch y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Gweithredu Strategaeth Amgylchedd Abertawe ar gyfer 2008—2010, y buom hefyd yn darparu sylwadau ysgrifenedig ar eu cyfer. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio hefyd gyda Chyngor Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i baratoi cynigion tirwedd CDL.
Am wybodaeth am gyfraniad yr Ymddiriedolaeth at gynlluniau strwythur lleol, gweler adroddiad GGAT 43.

***Cyngor i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol am gynigion datblygu yn rhan o'r broses rheoli datblygiad.***

Gweler isod GGAT 43.

***Cyngor, a lle bo'n briodol, ymweliadau'n gysylltiedig â gwaith y Cynlluniau Grant Coetiroedd ac ymgynghoriadau eraill â'r Awdurdod Coedwigaeth***

Ers cyflwyno cynllun Gwell Coetiroedd i Gymru, mae'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Coedwigaeth wedi newid, gan fod y rhan fwyaf o'r cynlluniau eraill yn cael eu diddymu'n raddol. Sgriniodd yr Ymddiriedolaeth gyfanswm o 60 o geisiadau, ac nid oedd angen asesiad pellach (WHE1) ar 32 o'r rhain. Mae ceisiadau ar gyfer trwyddedau cwympo coed yn cyrraedd o hyd (6 yn ystod y flwyddyn), fel y mae cynlluniau coedwig (un yn ystod y flwyddyn).

***Cyngor yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd Tir Gofal fel yr amlinellir yn nogfen CCGC "Gweithdrefnau Cyswllt Amgylchedd Hanesyddol Tir Gofal ar gyfer Nodweddion Hanesyddol a Safleoedd Archeolegol"***

Gweler GGAT 67 isod.

***Darparu gwybodaeth a chyngor i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill y tu allan i gynllun Tir Gofal***

Mae ambell ffermwr a thirfeddiannwr wedi gofyn am wybodaeth a chyngor ac mae'r rhain wedi'u cyfrif yn rhan o weithdrefnau ymholi CAH.

***Ymholiadau cychwynnol gan ddiwydiannau gwasanaeth, fel dŵr a thrydan a chyfleustodau eraill***

Gweler GGAT 43

***Cyswllt a chyngor i gyrff cadwraeth fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati***

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal cyswllt da â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch amrywiaeth eang o faterion a phrosiectau. Bu'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal cysylltiadau agos â sefydliadau ac unigolion eraill sydd â chyfrifoldeb a

diddordebau mewn materion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a lleol. Mynychodd staff yr Ymddiriedolaeth weithdy i lywio datblygiad Cynllun Rhanbarth Basn Afon Hafren.

***Monitro effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Cynllunio (Cymru) a Chylchlythyr 60/96 - Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg***

Mae'r ddwy ddogfen i'w gweld yn llawn ac yn effeithiol mewn polisïau ac arferion cynllunio yn Ne Ddwyrain Cymru. Bu'r holl Awdurdodau Unedol rhanbarthol yn ystyried yn llawn y darpariaethau a fynnir gan y llywodraeth ganolog i amddiffyn buddiannau archeolegol drwy'r prosesau cynllunio. Nid oedd angen unrhyw gamau penodol yn y cyfnod adrodd.

***Cyngor dilynol a chymorth tymor hir ar gyfer Cymru gyfan (eglwysi, arfordirol, ac ati) a phrosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth***

Mae Rheolwr Treftadaeth ac Allgymorth yr Ymddiriedolaeth yn rhoi gwybodaeth amgylchedd hanesyddol i'r Pwyllgor Cynghori Esgobaethol ar gyfer esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu gan fynychu chwe chyfarfod cyffredinol y flwyddyn. Eleni bu hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfod safle i drafod gwaith arfaethedig yn eglwys Porth Einon. Yn y rôl hon a hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cenedlaethol dros Gofnodi a Diogelu Cerrig Arysgrifenedig a Cherflunwaith Carreg Canoloesol Cynnar, parhaodd i weithio gydag eglwys Llangyfelach ar lunio cynlluniau ar gyfer diogelu ac ail-arddangos cerrig cerfiedig canoloesol cynnar yno. Mae hi hefyd yn ysgrifenyddes i Bwyllgor Ymchwil Caerllion, ac yn mynychu dau gyfarfod y flwyddyn a hi yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau cyffredinol am Gaerllion dros y ffôn a thrwy e-bost.

***Lledaenu canlyniadau prosiectau a ariennir gan Cadw yn ehangach gan gynnwys drwy'r wefan.***

Mewn parteriaeth ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, mae Cadw'n hyrwyddo'r angen ledled Cymru i ledaenu gwybodaeth am waith archaeolegol. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddefnyddio ei gwefan (www.ggat.org.uk) i roi gwybodaeth am archaeoleg ranbarthol yn ogystal ag adran arbennig i brosiectau a ariennir gan Cadw. Yn ystod y flwyddyn, ychwanegwyd gwybodaeth am brosiectau Cadw at y wefan, gan gynnwys crynodebau o bennu nodweddion tirwedd Dyffryn Gwy Isaf a Llancarfan, y cynhyrchwyd taflenni ar eu cyfer hefyd.
Cynhyrchwyd arddangosfa yn seiliedig ar y prosiect Eglwysi Hanesyddol, a bu'n llwyddiant ysgubol: bu'r paneli sy'n ymdrin ag Esgobaeth Trefynwy allan ar daith o amgylch eglwysi Gwent yn barhaus ers eu cwblhau. Arddangoswyd paneli Abertawe ac Aberhonddu am lawer o fisoedd yn Eglwys y Santes Fair, Abertawe, ac adroddodd y rheithor yno fod rhai pobl wedi ymweld â'r eglwysi yn arbennig i'w gweld.
Cafodd arddangosfa arall ar brosiect y Glannau ei hysgrifennu a'i dylunio gan fyfyriwr Americanaidd ar leoliad, dan oruchwyliaeth staff yr Ymddiriedolaeth.
Ystyrir gweithgareddau allgymorth eraill yr Ymddiriedolaeth isod.

***Ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill ar gynigion sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.***

Yn rhan o'n cylch gwaith treftadaeth ranbarthol, ymgynghorir â'r Ymddiriedolaeth ar amrywiaeth eang o faterion. Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymateb i'r dogfennau canlynol.

| Gan | Teitl y ddogfen |
|---|---|
| DEFRA | Papur Gwyn y Mesur Morol |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | Ymgynghoriadau Rheoli Risg Llifogydd ar gyfer pedwar dalgylch |
| Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol | Tuag at Ddatganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol i Gymru |
| Fframwaith Strategol | Safonau ar gyfer Archifau Cymru |
| LlCC | Mesur Treftadaeth Drafft |
| LlCC | Cynnal y Tir |

***Ymdrin ag ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy***

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau o dan y pennawd hwn yn ystod y flwyddyn.

***Ymdrin ag ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Darpariaethau Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol.***

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad o dan y pennawd hwn yn ystod y flwyddyn.

***Cyngor curadurol mewn cysylltiad â'r amgylchedd morol***

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei rôl ym Mhartneriaeth Aber Hafren (PAH), a mynychodd y cyfarfodydd hanner blwyddyn a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i fynychu ac ymateb i Grŵp Peirianneg Arfordirol Bae Caerfyrddin ac Abertawe, yn ogystal â rhoi sylwadau am ddrafft y Papur Gwyn Morol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn aelod o grŵp rhanddeiliaid Ynni'r Llanw ar Afon Hafren.

***Allgymorth/addysg gyffredinol***

Yn rhan o'n hymrwymiad allgymorth, ac mewn partneriaeth â Cadw, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i baratoi arddangosiadau a thaflenni a gwneud cysylltiadau newydd, ynghyd â rhoi darlithoedd a chroesawu myfyrwyr ac ysgolion ar leoliad i'n swyddfeydd. Yn arbennig, buom yn cynhyrchu taflenni ar brosiectau pennu nodweddion tirwedd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Dyffryn Gwy Isaf a Llancarfan. Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i nifer o geisiadau am wybodaeth gan y cyfryngau. Darparwyd gwybodaeth i'r BBC am Gwningar Merthyr Mawr, a Thirwedd Hanesyddol y Rhondda, i'r BBC, ac am eglwys Cwm-iou i Fulmar West, a'r cyfan yn gysylltiedig â rhaglenni a oedd ar y gweill. Darparwyd gwybodaeth i ymchwilwyr o *Time Team* ynghylch rhaglen arfaethedig am Gaerwent. Bu staff yr Ymddiriedolaeth yn darparu sylwadau arbenigol a gwybodaeth ychwanegol i *British Archaeology* ar y canllaw i safleoedd a henebion ym Morgannwg, sydd am ymddangos yn y rhifyn nesaf. Rhoddwyd gwybodaeth am gloddiadau Castell Caerdydd i gylchgrawn *Action Network* yng Nghaerdydd.

Rhoddwyd sgyrsiau a darlithoedd i Grŵp Archeolegol Bexley, Cymdeithas Hanesyddol y Bont-faen a'r Cylch, Cymdeithas Hanes Lleol Cymer Afan a'r Cylch, Naturiaethwyr Caerdydd, Cymdeithas Llwchwr, Cymdeithas Hanesyddol Cwm Llynfi, Cymdeithas Ddiwydiannol De Cymru (Ddwywaith), Cymdeithas Hanes Treboeth ac Urdd y Merched Treboeth. Cynhaliwyd dau weithdy ar goginio Rhufeinig, i Ysgol Gynradd Glyngaer ac Archeolegwyr Ifanc Gelligaer, a gweithdy braslunio yng Nghastell Pennard, ynghyd â thaith gerdded dywysedig ar gyfer Wythnos Genedlaethol Archaeoleg. Rhoddwyd chwe thaith gerdded dywysedig arall, un ar gyfer Wythnos Genedlaethol Archaeoleg a phedair yn rhan o Ŵyl Gerdded Gŵyr ym mis Mehefin. Denodd bob un ohonynt nifer dda.




*Pl 2 Stondin a gweithgareddau awyr agored yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd 2008*

Parhaodd ein partneriaeth â grwpiau a chymdeithasau treftadaeth yn Abertawe i ddwyn ffrwyth. Darparodd yr Ymddiriedolaeth arddangosfeydd i 14 o leoliadau i gyd. Roedd wyth o'r rhain mewn digwyddiadau a fynychodd staff yr Ymddiriedolaeth yn bersonol, a oedd yn cynnwys gweithgareddau mor amrywiol â Ffair Dydd Sant Ioan yn Aberdâr, Dydd Sant Illtyd yn Llanhiledd, dau ddigwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas Hanes Morgannwg, Cynhadledd Hanes yr Hydref yn Llancaiach Fawr, Diwrnod Caer Rufeinig Gelli-gaer, a digwyddiad i ddathlu'r Barri rhwng y Ddau Ryfel Byd, y cynhyrchwyd arddangosfa ar ei gyfer ar archaeoleg yr Ail Ryfel Byd. Roedd ein harddangosfa newydd fawr eleni ar Eglwysi Hanesyddol: fel yr adroddir uchod, bu paneli Trefynwy ac Abertawe ac Aberhonddu allan drwy'r amser bron ers eu cwblhau. Er bod problemau i ddechrau yn Llandaf gan fod ein cyswllt yn yr esgobaeth wedi gadael, llwyddwyd i arddangos y paneli hyn rywfaint yn gyhoeddus. Darparwyd arddangosfeydd di-griw ar gyfer Coleg Iwerydd (cychod a llongau), cloddiadau'r Ymddiriedolaeth yn Rhaeadr Aberdulais (cyflwyniad ar y gwaith tunplat yno a gwaith yr Ymddiriedolaeth), a Ffair Llyfrau Hanes Lleol Abertawe.
Eto mewn cysylltiad ag Amgueddfa Abertawe, trefnodd yr Ymddiriedolaeth Ddiwrnod Agored yn yr amgueddfa yn rhan o Wythnos Genedlaethol Archeoleg y Cyngor Archaeoleg Brydeinig ac eto bu'n yn llwyddiant ysgubol, gyda rhyw fil o symudiadau ymwelwyr yn cael eu cofnodi yn ystod y diwrnod, sef nifer debyg i'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal ag amrywiaeth o arddangosfeydd, darparodd yr Ymddiriedolaeth chwiliadau CAH, gwneud crochenwaith cynhanesyddol, peintio ogofâu a chloddiad ffug i blant, arddangosiad coginio Rhufeinig a sioe deithiol am ganfyddiadau. Rhoddwyd sgyrsiau ar bynciau o ddiddordeb lleol. Roedd stondinau hefyd gan ystod eang o gymdeithasau treftadaeth a hanes lleol a sefydliadau eraill, gan gynnwys Clwb Datgelu Metel Abertawe, Cymdeithas Hanesyddol

Ystumllwynarth, Cyfeillion Castell Ystumllwynarth, Ymddiriedolaeth Camlesi Castell-nedd-Tennant, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, Grŵp Hanes Teulu Gorllewin Morgannwg, Cymdeithas Hanes Treboeth, a Gwasanaeth Archif Gorllewin Morgannwg. Bu Meibion y Ddraig, grŵp hanes byw, eto yn rhoi cipolwg ar fywydau saethyddion y 14eg ganrif a'u teuluoedd.

Hefyd yn rhan o Wythnos Genedlaethol Archaeoleg, cynhaliwyd taith gerdded lwyddiannus gyda'r nos ar y cyd â Chymdeithas Hanesyddol y Mwmbwls ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r Mwmbwls ar gaerau'r Ail Ryfel Byd, fflora a ffawna Bryn y Mwmbwls. Cynhaliwyd parti braslunio yng nghastell Pennard, ar y cyd â Chyngor Dinas Abertawe.


*Plât 3 'Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf' Diwrnod Agored GGAT 2008*

Aeth staff yr Ymddiriedolaeth i'r Eisteddfod, lle gwnaethom rannu ein stondin â Chymdeithas Archeolegol Caerdydd. Roedd yr arddangosfa newydd ar y glannau yn rhan o'r arddangosiadau a ddarparwyd. Am y tro cyntaf cofnododd staff brofiadau dyddiol ar flog.[1] Yn anffodus, canslwyd Sioe Amaethyddol Brynbuga lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth wedi archebu stondin, oherwydd llifogydd.
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fynychu Fforwm Cefn Gwlad Gŵyr, sef corff cynghori ar gyfer rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. O ganlyniad rydym wedi codi proffil yr amgylchedd hanesyddol a ddylai arwain at ddeall materion amgylchedd hanesyddol a buddion rheoli cadarnhaol yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn eistedd ar y grŵp cymorth technegol ar gyfer prosiect '*Overlooking the Wye'* AHNE Dyffryn Gwy a ariennir gan CDL a phrosiect 'Tirweddau Angof' CBS Torfaen a ariennir gan CDL sy'n canolbwyntio ar Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.
Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth i nifer o grwpiau cymunedol sy'n dechrau prosiectau treftadaeth. Maent yn cynnwys Cyfeillion Hen Fynwent Llandeilo Tal-y-bont, Pontarddulais a grwpiau treftadaeth yn

[1] http://ggatblog.blogspot.com/2008/08/national-eisteddfod-of-wales-2008-diary.html

Aberdâr a Chwmbrân sy'n paratoi cynnig CDL i archwilio'r capel a elwir yn Gapel Sant Elfan yn Aberdâr, a chyfres o nodweddion carreg mewn coetir yng Nghwmbrân.

***Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol***

Rhan bwysig o'r rhaglen ac ymrwymiad allgymorth yr Ymddiriedolaeth hon yw trefnu Fforwm Treftadaeth rhanbarthol bob blwyddyn gyda'r deuddeg Awdurdod Unedol rhanbarthol yng Nghanolfan Gynadledda'r Metropole, Abertyleri. Denodd y cyfarfod nifer dda, a thrafodwyd materion busnes cyn cael cyflwyniad ar y rhaglenni amgylchedd hanesyddol a gynhelir ym Mlaenau Gwent mewn partneriaeth â gwledydd eraill yn yr UE.

***Swydd Archeolegydd Cymunedol***

Gyda chymorth Cadw, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymarfer canfod ffeithiau i bennu lefel y galw tebygol am brosiectau archeoleg cymunedol yn ein hardal. Wedyn paratowyd cynnig i CDL am brosiect cymunedol bach yn cynnwys gwaith ym Mhenrhiw-ceibr (Rhondda Cynon Taf) a Thredegar Newydd (Caerffili) yn seiliedig ar archwiliadau o'r ased amgylchedd hanesyddol lleol. Rydym yn falch o adrodd bod y cynnig wedi llwyddo i gael cyllid i gynnal y prosiect yn 2009—2010.

## GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol Rhanbarthol a GGAT 92 Cefnogi Cynllun Datblygu Lleol

***Ystadegau Cynllunio 2008—2009 (gweler Atodiad 2)***

Mae'r gwasanaethau cynllunio archeolegol a ddarperir ar ran Cadw yn gofyn bod yr Ymddiriedolaeth yn asesu holl geisiadau cynllunio'r rhanbarth i ddechrau, ac yn rhoi gwybod i'r awdurdodau cynllunio am rwystrau archeolegol i gynigion, gan roi gwybodaeth ac argymhellion penodol am y camau gorau sydd eu hangen i amddiffyn buddiannau archeolegol heb atal datblygiad a ganiateir. Wedyn, a chyda'r adnoddau cyfunol a ddarperir gan y deuddeg awdurdod rhanbarthol, darparodd yr Adran Rheoli Cynllunio Archeolegol (ARhCA) wasanaethau manwl pellach, fel darparu briffiau archeolegol ar gyfer asesiadau cyn penderfynu, cymeradwyo manylebau manwl a gyflwynir gan ddatblygwyr a monitro'r gwaith o'r syniad gwreiddiol a'r gwaith maes hyd at lunio'r adroddiad terfynol.

Mae ystadegau manwl 2008—2009 o'r ymatebion i geisiadau cynllunio a wnaed gan yr ARhCA ynghlwm yn atodiad (2) yr adolygiad hwn. Mae'r ymatebion yn amrywio o argymell asesiadau desg a gwerthusiadau maes ymwthiol yn ystod y cam cyn penderfynu ceisiadau cynllunio, i osod amodau archeolegol priodol ar ganiatâd cynllunio.

Gostyngodd nifer y ceisiadau a gofrestrwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn Ne Ddwyrain Cymru yn y cyfnod yn sylweddol (16.5%) oherwydd y dirywiad economaidd gyda'r nifer yn gostwng o 20,251 yn 2007—2008 i 16,898 yn 2008-2009.

Arweiniodd hyn at ostwng nifer y ceisiadau lle'r oedd yr adran yn rhoi cyngor manwl (1811 yn 2007—2008 i 1530 yn 2008—2009), sef gostyngiad o 15.4% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd ein hymatebion manwl i'r ceisiadau cynllunio yn cynnwys 4 gwrthwynebiad i geisiadau ar y sail y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar yr adnodd archeolegol (9 y flwyddyn flaenorol); argymell mewn 68 o achosion y byddai angen i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol am effaith y datblygiad arfaethedig ar yr adnodd archeolegol cyn penderfynu ar y cais cynllunio (118 y flwyddyn flaenorol) ac mewn 444 achos y dylid gosod amodau ar y caniatâd cynllunio sy'n mynnu bod gwaith archeolegol yn cael ei wneud (453 y flwyddyn

flaenorol). Gellir rhannu'r amodau hyn yn dri math, y rheini sy'n mynnu rhaglenni ymchwiliad archeolegol (fel cloddiadau, briffiau gwylio dwys) yr oedd 137 ohonynt (166); y rheini sy'n mynnu bod briff gwylio archeolegol yn cael ei gynnal yn ystod y datblygu 193 (197) a'r rheini sy'n mynnu bod adeiladau a strwythurau'n cael eu cofnodi 114 (90). Bu'r adran yn ymwneud hefyd â phedair ar bymtheg o apeliadau cynllunio gan ddarparu gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig i Arolygiaeth Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn 2003 gwnaethpwyd cyflwyniad gan yr Ymddiriedolaeth i Cadw a'r Awdurdodau Unedol yn Ne Ddwyrain Cymru ynglŷn â'r pwysau ar y gwasanaeth rheoli cynllunio archeolegol (y gwasanaeth rheoli datblygiad ar y pryd). Cafwyd y pwysau hyn o ganlyniad i'r cynnydd sydyn mewn ceisiadau cynllunio a oedd, yn y flwyddyn lawn flaenorol y cyfrifwyd amdani, wedi mynd heibio 16,000 am y tro cyntaf (16,619) ac a oedd yn parhau i godi (17,197 yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002). O ganlyniad, cytunwyd y dylid sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael drwy bartneriaeth gyllid y llywodraeth leol a chenedlaethol a fyddai'n golygu y gellid cefnogi swydd ychwanegol er mwyn lleddfu'r pwysau. Nid yw lefelau ymgeisio wedi gostwng eto i'r graddau sy'n achosi'r angen hwnnw, ac mae dyraniad anghyfartal yr adnodd cenedlaethol sydd ar gael am y cyfryw waith, a oedd wedi bodoli ers llawer blwyddyn, yn parhau, hyd yn oed os yw ychydig yn llai andwyol nag y bu.

Mae llwyddiant y cyllid ychwanegol yn amlwg gan fod y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi'n fwy proffesiynol a'r gweithgarwch wedi cynyddu'n sylweddol. Felly, y tro diwethaf yr oedd lefelau'n gymaradwy, cofnodwyd cyfanswm o 365 o ymyriadau (briff gwylio, asesiad, gwerthusiad, adran 23, cofnod) yn 2000—2001, ac yn 2008—2009 roedd yr un set ddata hon yn gyfanswm o 512, sef cynnydd o 40.27%. Mae dadleuon o ran gwelliannau effeithlonrwydd yn werthfawr ond mae angen eu hystyried yng nghyd-destun y grant yn 2000—2001 ar £75,709 (hy cyn y codiad o 10K ychwanegol yn 2004—2005). Er mwyn cynyddu'n gymesur â chwyddiant, dylai fod wedi cyrraedd £96,908[2] erbyn hyn ond ar hyn o bryd mae wedi cyrraedd £90,669. Dyma ddiffyg o 29.43% wrth gynnwys y codiad, ond os caiff hwnnw ei ddisgowntio, fel y dylai yn gywir, y diffyg gwaelodol mewn termau real yw 76.84% ar ddisgwyliad cynyddu'n gymesur â chwyddiant.

Yn gryno, pe byddai'r gwasanaeth wedi'i gefnogi'n ddigon da, byddem wedi gweld cynnydd rhagorol mewn perfformiad. Felly, mae'n syfrdanol inni gyflawni hyn mewn cyd-destun o alw cynyddol ac adnoddau sy'n prinhau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw le i arbed effeithlonrwydd pellach, a byddai unrhyw brinhau pellach yn debygol o arwain at beryglon na ellir eu rheoli parthed diogelu a chofnodi'r amgylchedd hanesyddol yn ein hardal.

***Cynllunio ar y We***

Y llynedd gwnaethom adrodd bod ACLlau Pen-y-bont ar Ogwr, Bannau Brycheiniog a Sir Fynwy wedi cyflwyno systemau cynllunio ar y we, a oedd yn eu galluogi'r Swyddog a oedd yn ymdrin â'r cais i lwytho manylion i lawr yn syth. Gwnaethom hefyd lunio adroddiad am y materion a gododd yn sgil yr arloesi hwn (gweler adroddiad am GGAT 90 yn Adolygiad Hanner Blwyddyn y llynedd am ragor o fanylion). Eleni dechreuodd Dinas a Sir Abertawe a Bro Morgannwg ddarparu gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein. Mae'r newidiadau hyn i'r ffordd y cawn wybodaeth wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaeth cyflymach, mwy effeithlon i'r

[2] Cyfrifwyd gan ddefnyddio http://www.thisismoney.co.uk/historic-inflation-calculator.

ACLlau hynny sydd wedi buddsoddi yn y dechnoleg newydd, ac edrychwn ymlaen at fwy o ACLlau yn mynd "ar-lein" yn y flwyddyn ariannol nesaf.

***Effeithiau datblygu mawr***

Er i nifer y ceisiadau cynllunio ostwng eleni, roedd nifer o brosiectau datblygu mawr a chymhleth yn parhau i ddechrau yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo amser ac ymdrech sylweddol i sicrhau yr ystyrir yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus yn ystod y broses gynllunio a bod mesurau lliniaru gan gynnwys cadwraeth yn y fan a'r lle a chloddiadau yn cael eu cynnwys yn y datblygiadau hyn. Eleni ymhlith y datblygiadau hyn yn arbennig, cwblhawyd y cloddiadau mawr a gynhaliwyd yn ystod adeiladu datblygiad preswyl ar safle Gwaith Copr Upper Bank yn Abertawe, a'r gwaith mawr a wnaethpwyd yn Ffos-y-Frân ger Merthyr Tudful. Bu'r Adran hefyd yn monitro'r gwaith maes parhaus sydd ei angen ar gyfer Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ac yn cynorthwyo i lunio rhaglen waith gan gynnwys arolwg geoffisegol a gwerthusiad prawf cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr academi filwrol newydd arfaethedig ar gyfer safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan.

***Cyfleustodau***

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i roi cyngor i'r Cwmnïau Cyfleustodau ac Asiantaeth yr Amgylchedd am effaith eu gwaith ar yr adnodd archeolegol. Cafwyd 67 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 24 ers y flwyddyn flaenorol) ac yn sgil ein cyngor, arweiniodd gwaith monitro archeolegol y datblygiadau llinellol hyn at gofnodi nifer o fuddiannau amgylchedd hanesyddol.

***Cynlluniau Datblygu Lleol***

Rydym wedi nodi yn y ddau adroddiad diwethaf fod math newydd o gynllunio strategol wedi'i gyflwyno yng Nghymru, sef Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), a fydd yn olynu system y Cynlluniau Datblygu Unedol (CDUau). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r cynlluniau newydd hyn gan roi cyngor ar effaith datblygu'r adnodd archeolegol o ran tir y cynigir ei ddyrannu yn y cynlluniau. Mewn llawer achos bydd hyn yn golygu rhoi cyngor ar fwy na 250 o ddyraniadau tir arfaethedig ar gyfer pob cynllun. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i faterion amgylchedd hanesyddol yn hynny o beth.

### GGAT 61 Pennu Nodweddion Tirwedd Hanesyddol: Gwaith Gwefan Llancarfan a Thirwedd Hanesyddol Gwy Isaf

Cwblhawyd y tasgau canlynol ar ôl golygu'r adroddiadau pennu nodweddion am y tro olaf ar gyfer Llancarfan a Dyffryn Gwy Isaf:

- Cyfieithu testunau tirwedd hanesyddol Llancarfan, Bro Morgannwg a'u rhoi ar wefan yr Ymddiriedolaeth (tudalennau Cadw)
- Cyfieithu testunau tirwedd hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf a'u rhoi ar wefan yr Ymddiriedolaeth (tudalennau Cadw)
- Cyfieithu ac argraffu taflenni ar gyfer tirwedd hanesyddol Llancarfan, Bro Morgannwg a thirwedd hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf (GGAT 1).

### GGAT 67 Tir Gofal

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i wneud gwaith yn ymwneud â chynllun Tir Gofal. Cwblhawyd 27 HE1.

Cynhaliwyd hefyd 28 o adolygiadau (cymal torri) pum mlynedd, ac roedd dau ohonynt yn cynnwys tiroedd ychwanegol.

**GGAT 80 Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru (Blwyddyn Pump)**

Yn ystod blwyddyn pump, cafodd y wybodaeth a gasglwyd o ymarfer mapio ardal gyfan Blaenau'r Cymoedd yn seiliedig ar argraffiad cyntaf map OS 25 modfedd (Mapiau Hanesyddol LANDMARK) a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, ei mireinio a'i chadarnhau drwy waith map ac arolwg maes pellach. Roedd gwaith peilot a wnaed gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent yn Ffos-y-Frân, Merthyr Tudful a chan Archaeological Investigations Ltd yn Rhyd-y-car, Merthyr Tudful yn fframwaith methodolegol defnyddiol. Cyfyngwyd astudiaeth Blwyddyn Pump i un o'r tirweddau grŵp dyffryn a nodwyd yn ystod Blwyddyn Pedwar: dyffrynnoedd uchaf Sirhywi, Ebwy Fach ac Ebwy a'r wahanfa ddŵr i'r gogledd o Ddyffryn Sirhywi o amgylch Trefil, gan ymdrin â chyfres o Weithfeydd Haearn agos at ei gilydd o Nant-y-glo i Sirhywi a'u tirweddau cysylltiedig.

Roedd yr astudiaeth ar ffurf dadansoddiad ac atchweliad map manylach a dargedir gan ddefnyddio argraffiad cyntaf map OS 25 modfedd (Mapiau Hanesyddol LANDMARK), a mapiau eraill sydd ar gael, sef mapiau ystâd, diwydiannol a Tithe, ynghyd ag edrych ar ragor o ddeunydd ffotograffig awyrol manwl (gweler y Llyfryddiaeth, isod). Adolygwyd y mapio digidol (data pwynt a pholygon) â rhagor o fanylder (gan ddefnyddio MapInfo 9). Bu'r prosiect hefyd yn edrych ar y Cofnod Amgylchedd Treftadaeth (CAT) rhanbarthol cyfrifiadurol. Yn ogystal, defnyddiwyd data a gwybodaeth berthnasol sydd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (cofnodion y Cofnod Henebion Cenedlaethol ac adnodd ar-lein Coflein) ynghyd â gwybodaeth ddiweddaraf Cadw am adeiladau rhestredig a chofrestredig, a hefyd data gwreiddiol ac eilaidd eraill sydd ar gael yn hawdd, gan gynnwys ffynonellau dogfennol a chartograffig a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac Archifdai Lleol. Roedd chwilio'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn darparu manylion pellach safleoedd a nodwyd o 'Coflein' a'r deunydd Endex a'r ffynonellau ffotograffig awyrol. Yn arbennig o berthnasol, roedd yr arolwg uwchdir diweddar a gynhaliwyd gan Wasanaethau Archeolegol John Winterburns yn 2005 (*Menter Uwchdiroedd 2005. Mynydd Llangatwg*), a *Chronfa Ddata* gyfatebol *Menter Uwchdiroedd Mynydd Llangatwg 13 Ionawr 2006 JWAS-007/05*. Edrychwyd hefyd ar waith ac erthyglau mwy cyffredinol a ffynonellau eraill sydd ar gael yn hawdd (gweler y Llyfryddiaeth, isod).

Roedd elfen o waith maes a dargedir hefyd yn rhan o'r prosiect yn ystod y flwyddyn gyfredol; aseswyd ymhellach yr ardaloedd yr ystyriwyd bod ganddynt y potensial mwyaf ar sail yr astudiaeth fapio a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Pedwar y prosiect, a dewiswyd ardaloedd ymweliad maes penodol. Roedd yr ymweliadau maes yn gyfle i asesu graddau, cyflwr ac arwyddocâd yr adrodd ymhellach, ac yn gyfle i baratoi cynigion cofrestru ac argymhellion rheoli a chadwraeth yn benodol i ardal a safle. Dyfeisiwyd a defnyddiwyd profforma ar gyfer cofnodi maes, a throsglwyddwyd y cofnodion maes canlyniadol yn nes ymlaen i gronfa ddata (MSAccess 2000) sy'n cydweddu â'r CAH rhanbarthol.

Roedd y gwaith maes yn gyfle i nodi cyflwr ardaloedd echdynnol/systemau rheoli dŵr sydd wedi goroesi yr ymwelwyd â hwy a'r olion ac asesu eu harwyddocâd yn gyflym. Dyfeisiwyd a defnyddiwyd y graddfeydd cyflwr canlynol:

**A –** Cyflawn: ardal echdynnu/ system rheoli dŵr mewn cyflwr da a digonedd o nodweddion cysylltiedig yn amlwg ar y wyneb.

**B –** Cymharol Gyflawn: cyflwr da, nodweddion cysylltiedig yn amlwg weithiau ac olion claddedig yn debygol iawn.

**C –** Difrodedig: nodweddion wyneb wedi goroesi ond tarfwyd arnynt, ychydig o bosibilrwydd olion claddedig.

**D** – Wedi'i Ddifrodi'n Sylweddol: nodweddion wedi goroesi ond tarfwyd arnynt cryn dipyn, fel nad yw ffurf na swyddogaeth yn amlwg rhagor/canfuwyd bod y nodwedd wedi'i dinistrio i raddau helaeth.

**E** - Wedi'i Newid: olion gweladwy nodwedd a newidiwyd yn sylweddol (e.e. safleoedd lle bo adnewyddu neu foderneiddio sylweddol wedi digwydd)

**U –** Anhysbys: potensial goroesi anhysbys (e.e. nid oes modd mynd ar y safleoedd i wneud arolwg, h.y. y rheini ar dir preifat, wedi'u cuddio gan lystyfiant, neu wedi'u claddu).

Penderfynwyd potensial neu arwyddocâd archeolegol cyffredinol yr adnodd drwy ystyried y ffactorau canlynol, lle bu gwybodaeth ar gael yn hawdd:

- **Prinder** – o ran cyfnod, math, ac ati
- **Cynrychioldeb** – amrywiaeth gynrychiadol o elfennau
- **Goroesi** – canran goroesi (ardaloedd a systemau yn unig)
- **Cyflwr** – cyflwr cyffredinol yr elfennau sydd wedi goroesi
- **Gwerth Grŵp** – cydlyniad strwythurol/swyddogaethol nodweddion sydd wedi goroesi, ond hefyd gwerth grŵp gwaith haearn ehangach
- **Cydlyniad** - wedi cadw ystyr ac arwyddocâd hanesyddol
- **Cyfanrwydd** – goroesi cymeriad neu ffurf wreiddiol
- **Potensial** – potensial ar gyfer astudio neu ddadansoddi yn y dyfodol
- **Amwynder** – potensial ar gyfer datblygu amwynder hamdden addysgol cyhoeddus
- **Cysylltiad** – â digwyddiadau, ffigyrau, datblygiad technolegol, neu argaeledd tystiolaeth ddogfennol
- **Statws** – amddiffyniad statudol


O ystyried nodweddion echdynnol a rheoli dŵr, os yw'n aml yn anodd canfod cysylltiad uniongyrchol, gwerth grŵp a chyfanrwydd oedd y ffactorau cyffredinol a ddefnyddiwyd yn aml i bennu arwyddocâd archeolegol.

Dyrannwyd un o'r gwerthoedd canlynol i'r arwyddocâd archeolegol a bennwyd:

- A – Arwyddocâd Cenedlaethol (A? – Arwyddocâd Cenedlaethol Posibl)
- B - Arwyddocâd Rhanbarthol
- C - Arwyddocâd Lleol
- D – Mân Arwyddocâd
- U – Anhysbys/Heb ei ganfod

Mae canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn nodi bod yr ardaloedd a'r nodweddion echdynnu mwyaf arwyddocaol sydd wedi goroesi i'w canfod yn nhirweddau echdynnol gogledd Bryn-mawr (EA042.09), yr ardal o dirwedd echdynnol uwchlaw Gwaith Haearn Glyn Ebwy (EA042.01), a Thwyn Blaen-nant (EA042.05), gydag ardaloedd annibynnol ychwanegol o nodweddion arwyddocaol yn ardal Nant-melyn (EA042.06), ac yn Domen-fawr (EA071), er bod y nodweddion sydd wedi goroesi yn yr olaf (EA071) yn berthnasol yn bennaf i weithgarwch echdynnol diweddarach. Yn ogystal â chronfeydd dŵr prin a thrawiadol Waun-y-pownd a Rhyd-y-blew, cofnodwyd nodweddion rheoli dŵr arwyddocaol â chysylltiad uniongyrchol ag

echdynnu a phrosesu haearnfaen (sgwrio hefyd, fel y 'system' bwysig a oedd wedi goroesi o ffrydiau a chronfeydd dŵr distewi/sgwrio yng ngogledd Bryn-mawr.




*Ffigur 1 Nodweddion ardal linellol a nodweddion pwyntiau a gofnodwyd yn ystod arolwg o'r dirwedd echdynnol i'r dwyrain o Lyn Ebwy*

Aseswyd yr is-ardaloedd echdynnu, nodweddion echdynnu, a nodweddion rheoli dŵr ar gyfer eu harwyddocâd archeolegol a'u cyflwr, a gwnaethpwyd argymhellion. Aseswyd manylion cyflwr yr 87 o ardaloedd echdynnu a nodweddion a gofnodwyd yn

unigol neu grwpiau o nodweddion yr ymwelwyd â hwy gyda 19 o ardaloedd a safleoedd echdynnol yn gyflawn ac mewn cyflwr da (h.y. cyflwr A) a 25 pellach yr ystyrir eu bod mewn cyflwr A/B, un ardal a gofnodwyd fel A-U (oherwydd mynediad cyfyngedig), ac 20 yn cael eu cofnodi mewn cyflwr da (h.y. gwerth cyflwr B) gyda 5 pellach yn B/C, 2 yn B/D, ac un yn B/U. Aseswyd bod gweddill y mannau o ddiddordeb yr ymwelwyd â hwy, ar wahân i ddau o botensial goroesi anhysbys, mewn cyflwr difrodedig, wedi'u difrodi'n sylweddol neu wedi'u newid.
O'r 78 o nodweddion rheoli dŵr yr ymwelwyd â hwy ac a aseswyd yn ystod Blwyddyn 5, aseswyd bod dwy'n gyflawn ac mewn cyflwr da (cyflwr A), a 31 pellach wedi'u hasesu yn A/B, a 16 wedi'u hasesu'n gymharol gyflawn ac mewn cyflwr da (gwerth cyflwr B), a saith pellach yn B/C, pump yn B/E a dau'n B/U. Aseswyd bod gweddill y nodweddion rheoli dŵr yr ymwelwyd â hwy, ar wahân i un o botensial goroesi anhysbys, mewn cyflwr difrodedig, wedi'u difrodi'n sylweddol neu wedi'u newid.
Roedd yr adroddiad yn gwneud argymhellion yn amrywio o gofnod archeolegol/arolwg topograffig manwl pellach i gadwraeth/rheoli a chynigiwyd argymhellion mewn perthynas â phosibiliadau cyflwyniad cyhoeddus ac ymgeiswyr posibl am brosiectau cymunedol.

**GGAT 89 Aneddiadau Cynhanesyddol a Rhufeinig a safleoedd eraill**

Cynlluniwyd y prosiect hwn i bara dwy flynedd, gyda'r flwyddyn gyntaf yn ymdrin â rhannau gorllewinol a gogleddol ein hardal, gan gynnwys awdurdodau unedol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen. Mae'r Awdurdodau Unedol yn cynnwys y rhan fwyaf o'r uwchdiroedd, ac roedd gan y safleoedd a astudiwyd eleni gyfran gymharol uchel o strwythurau carreg a oedd wedi goroesi, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.
Roedd y set ddata a luniwyd y llynedd ar gyfer cam asesu cychwynnol y prosiect hwn yn cynnwys 133 o safleoedd yn yr wyth ardal AU hyn. Cofnodwyd bod 18 safle ar y CAH wedi'u nodi ar ffotograffau awyr, ond nad oedd digon o wybodaeth i'w hasesu'n briodol. Edrychwyd ar y ffotograffau'n briodol yn y Gofrestrfa Ganolog, ac o ganlyniad mae wyth wedi'u hepgor gan eu bod naill ai wedi'u difrodi neu nad ydynt yn perthyn i gylch gwaith yr arolwg. Mewn wyth safle, roedd cystal gwybodaeth o'r ffotograffau awyrol nes bod copïau wedi'u cael ar gyfer plotio. Gwelwyd 278 o ffotograffau i gyd. Nodwyd bod gan 70 o safleoedd i gyd botensial ar gyfer ymweliadau maes. Cynhaliwyd ymweliadau maes o ddechrau mis Medi 2008 hyd ddiwedd mis Ionawr 2009.
Daethpwyd o hyd i'r safleoedd gan ddefnyddio dyfais GPS â llaw, er mwyn cywiro'r cyfeirnod grid cenedlaethol (NGR) ar gyfer pob cofeb os oedd angen, ac os oes modd gan na ellid cael darlleniad GPS dibynadwy bob tro. Os na chanfuwyd safleoedd ar y cyfeirnod penodol, chwiliwyd yr ardal o'i amgylch. Os oedd anghysondeb rhwng uchder y Datwm Ordnans (OD) a roddwyd gan y darllenwr GPS, a'r uchder a restrwyd yn y gronfa ddata NGR, ystyriwyd bod yr olaf yn fwy dibynadwy, ac felly dewiswyd ei gadw.
Cofnodwyd pob safle gan ddefnyddio profforma, gan nodi disgrifiad presennol, mesuriadau, safle, agwedd a golygfa, a defnydd tir presennol. Aseswyd y goroesiad, gwerth amwynder, cyflwr, breuder a gwendid ar brofforma ar wahân. Roedd y ffurflenni cofnod yn dilyn yn agos y profforma a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect Henebion Defodol ac Angladdol (GGAT 72). Cymerwyd mesuriadau llorweddol gan ddefnyddio tâp mesur, ac aseswyd yr uchder a oedd wedi goroesi dros y ddaear o'i

amgylch gan ddefnyddio graddfa ffotograffig. Tynnwyd ffotograffau gan ddefnyddio delweddau digidol a phrint du a gwyn. Gwnaethpwyd braslun ar gyfer henebion anghofrestredig os oedd yr heneb yn cynnwys nodweddion gwahaniaethol ac os nad oedd arolwg yn bodoli eisoes gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cofnodwyd safleoedd newydd a nodwyd yn ystod yr ymweliad maes gan ddefnyddio'r un fethodoleg.


Roedd rhai o'r safleoedd yr ymwelwyd â hwy mewn cyflwr da iawn ac efallai o bwysigrwydd cenedlaethol. Gan amlaf, mae'r safleoedd mewn amgylchedd sefydlog ac nid ydynt o dan fygythiad cael eu herydu na'u dinistrio ymhellach hyd y gellir rhagweld. Mae'r mwyafrif ar dir mynediad agored a ddefnyddir fel porfa. Fel rheol gyffredinol, mae safleoedd uwchdir yn strwythurau adeiledig carreg sy'n sefyll o hyd, ac maent mewn gwell cyflwr na safleoedd sydd ar diroedd is. Mae'r duedd hon yn deillio o'r defnydd tir cyferbyniol, gydag iseldiroedd yn fwy tebygol o fod ag olion canrifoedd o aredig. Mae ychydig o safleoedd uwchdir yn gorwedd ar ddaeareg carst, ac yn dueddol o gwympo i mewn i lyncdyllau. Gwnaethpwyd y gwaith maes mewn tywydd amrywiol, a oedd weithiau'n effeithio'n negyddol ar ansawdd y cofnodi. Nodwyd llond dyrnaid o safleoedd newydd yn ystod ymweliadau safle, er nad oedd pob un ohonynt yn perthyn i gylch gwaith y prosiect. Ychwanegwyd dau safle newydd at y rhestr o Aneddiadau Gwledig Rhufeinig ac Aneddiadau Diamddiffyn Cynhanesyddol Diweddarach, ac mae cronfa ddata CAH wedi'i diweddaru'n briodol. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys dau dŷ llwyfan a nodwyd yn ardal lloc Nant Glais. Mae'r gwahanol fathau o henebion yn gorgyffwrdd yn sylweddol ac mae llawer o grwpiau wedi'u gwneud o gyfuniad o ddau fath neu fwy. Un ffactor gwaethygu a effeithiodd ar y gwaith cofnodi oedd cymhlethdod a graddau nifer o safleoedd anheddiad a gafodd eu grwpio o dan un prif rif cofnod (PRN). Yn y pen draw, gwnaethom ddiweddaru/cofnodi yng nghronfa ddata CAH saith safle *anheddiad*, un ar hugain o safleoedd *lloc*, pedwar ar ddeg o safleoedd *cylch cwt*, pedwar safle *llwyfan*, tri safle *mur*, dau safle *cyfundrefn caeau*, dau safle *terfyn cae*, pedwar safle *clawdd*, a dau safle a ddosbarthwyd fel *gwrthgloddiau*, gan ei bod yn amhosibl manylu eu teipoleg ymhellach. Nid oedd yn bosibl ymweld ag un safle *lloc*, gan nad oeddem yn gallu cael i mewn. Nid oedd modd dod o hyd i ddau arall. Ni ellid dod o hyd i un safle *mur* yn ystod yr ymweliad safle. Arolygwyd safleoedd *llwyfan* Canoloesol ac Ôl-ganoloesol yn ystod prosiect cynharach a ariannwyd gan Cadw (yr Arolwg Anheddiad Anghyfannedd), gan adael yr arolwg presennol i ymdrin â'r safleoedd cynhanesyddol a Rhufeinig.

### GGAT 91 Arolwg Trefol Aberdâr.

Cynhaliwyd y prosiect, sef ymarfer pennu nodweddion trefol ar Aberdâr, i lywio cynnig Menter Treftadaeth Treflun. Nod cyffredinol y prosiect hwn oedd darparu fframwaith amgylchedd hanesyddol gwybodus ar gyfer datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun ehangach adfywio gan ddefnyddio ymagwedd fethodolegol a ddatblygwyd yn flaenorol ac a fireiniwyd wedyn ar gyfer pennu nodweddion trefol.

Ystyrir y gallai adfywio o dan fentrau fel Menter Blaenau'r Cymoedd ddod â budd sylweddol i gymuned Aberdâr, gan sicrhau nad yw buddiannau treftadaeth yn cael eu cyfaddawdu ond yn hytrach eu sicrhau a'u gwella. Roedd y prosiect yn rhoi cyfle i ymchwilio, casglu a dadansoddi data am gymeriad ac adeiledd trefol hanesyddol Aberdâr. Y gobaith yw y bydd y data dechreuol canlyniadol yn cyfrannu yn y pen draw at brosiectau y bydd y cyfryw fentrau yn eu meithrin.

The phases of historical development




*Ffig 2 Pennu Nodweddion Trefol Aberdâr: Cyfnodau datblygu yn deillio o astudiaeth atchweliad map*

Roedd y prosiect hwn yn amgylchynu Aberdâr a'i haneddiadau dibynnol, sef Trecynon, Tresalem, Cwmdâr ac Abernant, sy'n ffurfio tirwedd drefol ddiwydiannol bwysig o ganlyniad i'r chwyldro diwydiannol. O'i gwreiddiau gwledig, roedd datblygiad trefol Aberdâr yn gysylltiedig â'r twf cynhyrchu haearn o ddechrau'r 19eg ganrif ac a ysgogwyd gan welliannau mewn technoleg a chysylltiadau cludiant, sef y rhwydweithiau camlas a rheilffordd, fel tramffordd Tappenden a oedd yn weithredol ym 1805, a Chamlas Aberdâr a gwblhawyd ym 1812. Erbyn dechrau'r 19eg ganrif roedd aneddiadau arwahanol wedi ymddangos o amgylch y gwaith haearn yn Gadlys (1827-1876), Llwydcoed (1800-1875) ac Abernant (1801-1875), gyda phoblogaeth Aberdâr yn cynyddu dros ddwywaith a hanner rhwng 1801 a 1831. Yn sgil twf y diwydiant glo o ganol y 19eg ganrif, a ddaeth yn sgil suddo pyllau newydd a dyfnach, cafwyd ehangu trefol parhaus.

Mae llawer o'r tai hŷn yn yr ardal yn gysylltiedig â darparu tai i weithwyr haearn; fodd bynnag, o'r 1840au cynyddodd poblogaeth yr ardal ymhellach pan fu pobl yn mewnfudo i weithio yn niwydiant glo cynyddol yr ardal. Cynyddodd y preswylwyr o 3,532 ym 1841 i 14,998 ym 1851 (32.6%), gan gynyddu'r galw am dai ychwanegol. Y canlyniad oedd ehangu trefol parhaus y cymunedau sefydledig a chreu cymunedau newydd, er enghraifft y rheini a sefydlwyd yng Nghwm Dâr. Gyda chynhyrchu haearn yn darfod i bob pwrpas erbyn diwedd y 1870au yn llawer o ardaloedd Blaenau'r Cymoedd, cyflogaeth yn niwydiant glo'r ardal oedd yn gyfrifol am esmwytho a hyd yn oed wrthdroi'r gostyngiad yn y boblogaeth a oedd yn dod i'r amlwg, ac o ganlyniad mae'n ymddangos bod Aberdâr a'r cylch wedi parhau i brofi datblygiad trefol parhaus o leiaf i ganol yr ugeinfed ganrif.

Darparodd y gwaith prosiect a wnaeth GGAT gyfraniad ar ffurf data System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Creu a Dadansoddi Archeolegol a Thopograffigol ar gyfer ardal yr astudiaeth, sef:

- Mapio data GIS: cafodd y data GIS ei blotio mewn haenau MAPInfo fel data pwynt ac os oedd digon o wybodaeth ofodol, fel polynodweddion (data polylinell a pholygon). Yn ogystal, cynhyrchwyd mapiau topograffig a chyfnodol o ddatblygiad trefol o ffynonellau cartograffig hanesyddol (Tithe, argraffiad 1af ac 2il argraffiad mapiau OS) mewn Haenau MapInfo fel data pwynt a pholygon.
- Disgrifio datblygiad hanesyddol a thopograffi, yn bennaf ymarfer bwrdd gwaith a mapio gan gynnwys nodi a mapio cydrannau hanesyddol sydd wedi goroesi gan gynnwys safleoedd dynodedig (Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig), ac adeiladau a phlotiau hanesyddol eraill (yn seiliedig ar ddyddiad 2il argraffiad OS)
- Adnabod potensial archeolegol (casglu a chyfosod data).
- Llunio adroddiad cryno.

**GGAT 93 Arolwg a Chloddiad Lloc a Safle Rhufeinig Church Hill**
Roedd arolwg a chloddiad Church Hill yn brosiect a gynhaliwyd ar y cyd ag Adran Clasuron, Hanes yr Hen Fyd ac Eifftoleg Prifysgol Abertawe a Sefydliad Brenhinol De Cymru (Cyfeillion Amgueddfa Abertawe). Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer y prosiect hwn dros dair wythnos ar ddiwedd mis Mehefin a hanner cyntaf mis Gorffennaf. Bu tri ar ddeg o fyfyrwyr a dau ddarlithydd yn cymryd rhan o'r brifysgol, ac roedd ychydig o gymorth ychwanegol gan Sefydliad Brenhinol De Cymru.

Ar ôl clirio llystyfiant a oedd wedi tyfu ers i'r Comisiwn Coedwigaeth glirio'r safle yn y gwanwyn, gosodwyd dwy ffos. Y bwriad oedd torri un ffos 2x30m ar draws clawdd y lloc i'r tu mewn, ac un 2x20m yn yr ardal canfyddiadau Rhufeinig i'r de o'r lloc, ond roedd coed a bonion yn atal hyn. Roedd Ffos 1, y tu allan i'r lloc yn 2x19m, roedd Ffos 2 ar draws y clawdd yn 2x10m, ac ar ôl trafod â Cadw torrwyd trydedd ffos, Ffos 3, hefyd yn 2x10m, yn y tu mewn.

Roedd Ffos 1 yn rhedeg dwyrain-gorllewin, gyda'i phen dwyreiniol yn croestorri'r llwybr modern. Darganfuwyd wal yn rhedeg gogledd-de, 2m o ben dwyreiniol y ffos ac yn rhannol ar linell y ffos. Roedd yn 0.60m o led ac yn goroesi un cwrs o uchder uwchlaw'r sylfaen, wedi'i hadeiladu o flociau calchfaen gydag wyneb cadarn ar yr ochr ddwyreiniol, ond yr ochr orllewinol yn yr un blociau rwbel llai fel y craidd. Roedd yn debyg nad oedd wedi dioddef unrhyw effeithiau andwyol o gerbydau'n pasio ar hyd y llwybr. Roedd gwaddod rwbel i'r gorllewin o'r wal hon yn gorchuddio wyneb cobls, ac nid oedd yn ymddangos ei bod yn ymestyn yr holl ffordd i ben gorllewinol y ffos, er bod amser wedi atal y cyfan heblaw rhan fechan rhag cael ei ddatgelu. Cloddiwyd yn helaethach allan i ddwyrain y wal. Yma roedd y rwbel cyfatebol yn gorchuddio gwaddod rhydd a oedd yn cynnwys cynhyrchion hylosgi, o ryw broses ddiwydiannol yn fwy na thebyg, a oedd wedyn yn gorchuddio haen o glai a losgwyd yn goch a melyn. Nodwyd darnau bach o glai melyn heb eu llosgi wrth ymyl y rhan ddwyreiniol.



*Pl 4 Church Hill, Gŵyr: Cloddiad (Graddfa Lorweddol 1m) Ffos 1 a wal Rufeinig yn y blaendir*

Torrwyd Ffos 2 gogledd-de drwy'r clawdd ar ochr ddeheuol y lloc yn y man yr oedd y llwybr yn rhedeg drosto. Eto, dangoswyd nad oedd y traffig cerbydau wedi gwneud llawer iawn o ddifrod i'r archaeoleg. Roedd y clawdd tua 4m o led a hyd at 0.7m o uchder. Fe'i hadeiladwyd o flociau rwbel mawr a osodwyd fel wyneb gyda chraidd rwbel mewnol, a llinell o flociau rwbel wedi'u gosod yn rheolaidd i lawr y canol. Tua 2.5m i'r de roedd sylfaen debygol, hefyd o gerrig maes mawr heb eu torri tua 0.8-1.0m o led. Roedd yr ardal ryngfodol yn cynnwys llenwad rhydd o rwbel a phridd ynghyd â blociau mwy o'r wal yn gorchuddio haen o glai. Ar droed allanol, deheuol y dyddodion clawdd hyn oedd dyddodyn sbwriel yn cynnwys llawer iawn o gregyn wystrys, ond nid oedd modd egluro'r berthynas rhwng y ddau yn yr amser a oedd ar gael ar gyfer y cloddiad. Mae'r ffaith bod crochenwaith yn y clawdd yn dangos iddo gael ei adeiladu, mae'n rhaid, yn y cyfnod Rhufeinig neu wedi hynny, ac felly nid yw'n ymddangos bod y safle'n un feddiannaeth yn y cyfnod Rhufeinig, a barhaodd mewn lloc cynhanesyddol diweddarach ac o'i amgylch.



*Pl 5 Church Hill, Gŵyr: Adrodd am Ganfyddiadau*

Roedd Ffos 3 a oedd yn ymestyn i'r gogledd orllewin-de orllewin yn y tu mewn, yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth strwythurol. Nodwyd wyneb cobls tameidiog, ond nid oedd hwn yn ymestyn yr holl ffordd i'r pen gogledd-orllewinol, a oedd yn cynnwys dim ond dyddodyn tameidiog o rwbel mewn matrics clai meddal tebyg fel y nodwyd ar ben gorllewinol Ffos 1.

Roedd yr arolwg topograffig yn dangos y lloc yn amlwg, ynghyd â’r topograffi y tu mewn a’r tu allan. Roedd hefyd yn nodi i ba raddau roedd y llwybr presennol a’i ragflaenwyr wedi treiddio islaw wyneb y ddaear bresennol.


Roedd yr holl ganfyddiadau y gellid eu dyddio a gafodd eu casglu o bob ffos yn Rhufeinig. Mae’r asesiad cychwynnol o’r crochenwaith yn nodi bod yr amrediad dyddiadau yn bennaf rhwng yr 2il a’r 3edd ganrif, gyda dim ond ambell ffurf ddiweddarach wedi’i nodi; roedd yn cynnwys llestri Samiaidd yn ogystal â llestri cwrs, er nad oedd llawer o lestri coeth. Fodd bynnag, roedd cyfraneddau cymharol y llestri’n anarferol. Roedd hyn, a nifer fechan y llestri coeth, yn awgrymu i’r arbenigwr crochenwaith nad fila oedd y safle; fodd bynnag, mae’r canfyddiadau ynglŷn â strwythur yr adeilad yn dangos iddo fod, mae’n debyg, yn adeilad o statws uchel.

Roedd brics a theils yn ganfyddiadau aml, ac roedd rhai darnau o *opus signinum*, a theserâu; daeth darn o blastr wal hefyd o ganfyddiadau wyneb cynharach. Roedd asgwrn anifail mewn cyflwr da, ac mae’r casgliad yn cynnwys carw a baedd gwyllt, rhywbeth arall sy’n arwydd o statws uchel tebygol. Darganfuwyd ambell ddarn o aloi copr a haearn, ac nid ystyriwyd bod gwerth adrodd amdanynt, ond ni chafwyd darnau arian.


**GGAT 94 Ysgafell fawn Brynmill**

Ym mis Awst 2008 adroddodd Brian Price o Glwb Datgelu Metel Abertawe iddynt ddarganfod strwythur pren posibl ar Ysgafell Fawn Brynmill, yn ardal rynglanw Bae Abertawe. Ar 13 a 14 Ionawr 2009 cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymchwiliad a gwaith cofnodi brys ar y strwythur hwn.

Cadarnhaodd y gwaith maes fod y strwythur yn rhan fer o lwybr clwydi, a adeiladwyd o gyfres o brennau crwn cyfochrog a orchuddiwyd â dyddodyn prysgwydd. Roedd peg pren crwn byr a weithiwyd i bwynt cŷn wedi’i wthio drwy’r dyddodyn prysgwydd i mewn i’r clai sylfaenol i angori’r panel clwyd yn ei le.



*Pl 6 Llwybr Brynmill: Strwythur coed 003, yn edrych i’r de orllewin (graddfa 2m)*




*Ffig 4 Llwybr Brynmill: Cynllun*

Roedd y dyddodyn is ar draws yr ardal o ddiddordeb yn glai morol llwydlas gyda dyfnder a gloddiwyd o 0.60m; o dan y clai, ac wedi’i gynnwys yn rhannol yn y clai, roedd strwythur pren wedi’i alinio o’r gogledd orllewin i’r de ddwyrain. Roedd hyd (gogledd orllewin - de ddwyrain) o 2.18m ohono i’w weld ac fe’i holrheiniwyd am 0.14m pellach o dan y clai morol. Roedd gan y nodwedd ddiamedr noeth mwyaf o

1.72m ac roedd yn culhau tuag at ogledd ddwyrain y strwythur i led estynedig o 0.63m. Adeiladwyd y strwythur o ystlysau pren crwn cyfochrog, ac roedd canghennau bychain wedi'u torri oddi ar eu hochrau i gyd. Roedd yr ystlysau gogledd-ddwyrain a de-ddwyrain i gyd yn cynnwys un pren crwn (W04 a W02). Yn rhedeg yn gyfochrog â'r prennau hyn i lawr canol y strwythur roedd pedwaredd ystlys bosibl (W03). Roedd un pren crwn mawr (W01) wedi'i gyfeiriadu am 90º i'r ystlysau hyn, yn gorchuddio pren W02. Roedd rhic siâp V, 6mm o ddyfnder ag ymyl deheuol â goleddf ysgafn ac ymyl ogleddol fertigol wedi'i dorri i mewn i WO1.
Wedi'i orchuddio'n rhannol gan ystlys ogledd-orllewinol W04 roedd pren crwn (W06) a oedd yn ymestyn 0.35m i ogledd orllewin y strwythur, o dan wyneb y clai morol. Roedd pren crwn W06 wedi'i weithio i bwynt lletem. Yn gorchuddio pen gogledd orllewinol y strwythur roedd dyddodyn prysgwydd (004), wedi'i gyfeiriadu ar onglau sgwâr i'r ystlysau pren crwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod unrhyw brysgwydd wedi'i lapio'n gyfan gwbl o amgylch yr ystlysau fel y gwelir mewn rhai paneli clwyd unionsyth. Roedd pren crwn (W07) 0.56m o ben gogledd-orllewinol y dyddodyn prysgwydd (004), a oedd wedi'i weithio i bwynt cŷn ar un ochr.
Anfonwyd un sampl o'r strwythur (W04) at y Labordy Radiocarbon Analytig Beta yn Florida ar gyfer AMS. Dyddiwyd y sampl hwn i Cal BC 2140 i 1930 (Cal BP 4090 i 3880) gyda Chalibrad 2 Sigma (Beta: 257022). Anfonwyd cyfanswm o bum sampl (W01, W04, W07, B01 a B14) at Astrid Caseldine o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan i nodi rhywogaeth. Nodwyd mai derwen oedd prennau W01, W07, B01 a B14 ac mai gwern oedd pren W04.

### GGAT 95 Bragdy Vulcan, Merthyr Tudful, Cofnodi Brys

Ym mis Ionawr 2009 rhoes Cymdeithas Tai Wales and West wybod i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei bod am ddymchwel hen Fragdy Merthyr Tudful (a alwyd hefyd yn Fragdy Vulcan), gan ei fod yn anniogel ac yn risg iechyd a diogelwch posibl. Darparodd Cadw grant i alluogi Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent i wneud cofnodion brys o adeiladau'r bragdy cyn eu dymchwel. Honnwyd mai Bragdy Merthyr Tudful oedd y Bragdy hynaf ym Merthyr Tudful gyda'r cofnod cynharaf o 1830. Efallai bod yr adeilad cynharaf a oroesodd wedi'i adeiladu cyn 1842 ond adeiladwyd mwyafrif yr adeiladau yn ystod y cyfnod y bu'r bragdy dan reolaeth teulu Giles (Giles a Harrap yn ddiweddarach) o 1850 nes ei werthu i William Hancocks a'i Gwmni ym 1936 a throi'r adeiladau'n ddepo dosbarthu. Yn ddiweddarach prynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y safle i'w ddefnyddio fel ei iard ystadau.
Roedd adeiladau gwreiddiol y bragdy'n cynnwys amrywiaeth o stordai a seleri gwirod a chanddynt ffasâd wedi'i addurno ochr yn ochr â Heol Aberhonddu gyda'r bragdy, y bracdy ac adeiladau bragu eraill yn y cefn. Roedd tŷ i'r perchennog hefyd yn rhan o'r safle. Erbyn 1881 roedd bracdy newydd a stablau wedi'u hadeiladu. Yn sgil buddsoddiad sylweddol cyn 1899 adeiladwyd rhes newydd ac erbyn 1917 roedd bragdy newydd ynghyd â boelerdy a pheiriandy wedi cwblhau adeiladau'r bragdy.



*Pl 7 Ffotograff Awyrol o Fragdy Merthyr Tydfil ym 1989 pan oedd yn cael ei ddefnyddio fel depo cyngor (© Trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil)*

## ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2009 — MEDI 2009

### GGAT 67 Tir Gofal

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi prosesu deg adolygiad pum mlynedd Rownd 1 dan y trefniadau newydd ar gyfer yr Isadran Taliadau Gwledig, ac un gyda thiroedd ychwanegol yn perthyn i brosiect Tir Gofal Cadw. Cwblhawyd chwech HE1, ond dim HE2.

### GGAT 80 Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru (Blwyddyn Chwech)

Yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol targedwyd y prosiect at yr ardaloedd hynny (h.y. ardaloedd draeniad ac echdynnol) a ddewiswyd yn ystod trydedd a phedwaredd flwyddyn y prosiect, a oedd yn nodi tair ardal â'r potensial mwyaf:

a) Coridor Aberdâr-Hirwaun a'r ardal i'r gogledd o Hirwaun yn canolbwyntio ar rannau uchaf Afon Cynon i Benderyn

b) Ardal yn syth i'r gorllewin o Abersychan sy'n cynnwys Abersychan a Gwaith Haearn y Farteg a'r dyffrynnoedd a'r llethrau cyfagos

c) Dyffrynnoedd uchaf Sirhywi, Ebwy Fach ac Ebwy a'r wahanfa ddŵr i'r gogledd o Ddyffryn Sirhywi o amgylch Trefil, byddai hyn yn cynnwys cyfres o Weithfeydd Haearn agos at ei gilydd o Nant-y-glo i Sirhywi a'u tirweddau cysylltiedig.

Mae gwaith y flwyddyn gyfredol wedi cynnwys gwaith dogfennol a gwaith maes manylach yn yr ardal gyntaf, sef Ardal a). Roedd hyn yn cynnwys casglu data cefndir hanesyddol a oedd ar gael, atchweliad map manylach, a mapio manwl nodweddion o fapiau hanesyddol, a ffotograffau awyrol, yn ogystal â gwaith maes arolwg a dargedir yn ôl yr angen, a chynhyrchu argymhellion rheoli a chynigion cofrestru penodol yn ôl y gofyn.

Roedd atchweliad map graen mân o'r ardaloedd diffiniedig yn seiliedig ar argraffiad cyntaf map OS 25 modfedd (Mapiau Hanesyddol LANDMARK), a'r holl fapiau eraill ar gael (hy mapiau ystâd a Tithe), ynghyd ag edrych ar ddeunydd ffotograffig awyrol manwl detholus, yn elfen bwysig o'r prosiect. Cynhaliwyd ymweliadau maes a dargedwyd hefyd. Mae'r prosiect yn cynnwys edrych ar gofnodion a gedwir gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH), a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol (CHC), yn ogystal â data Cadw (ar gyfer Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig), a CCGC (ar gyfer data Amgylcheddol), ynghyd â ffynonellau gwreiddiol eraill sydd ar gael yn hawdd (ee cofnodion a mapiau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Archifdy Morgannwg, Caerdydd a mannau eraill). Edrychwyd hefyd ar waith ac erthyglau a ffynonellau eraill mwy cyffredinol. Ni fwriadwyd gwneud gwaith ymchwil gwreiddiol, ond nodwyd ymhle y byddai hyn yn ymagwedd berthnasol a buddiol rywbryd yn y dyfodol.

Yn y pwynt hanner blwyddyn, mae'r prosiect wedi dechrau ac mae'r data dechreuol wedi'i gasglu (Tasg 1: gwybodaeth ddechreuol CAH, y Cofnod Henebion Cenedlaethol, Cadw and CCGC wedi'i chael a'i phrosesu). Mae data'r Cofnod Henebion Cenedlaethol wedi'i wirio a'i ddiweddaru mewn perthynas â Coflein, ac edrychwyd ar y Cofnod Henebion Cenedlaethol. Mae ymweliadau ychwanegol â'r archifau, h.y. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Archifdy Morgannwg, Caerdydd, a'r adnodd ffotograffig awyrol yn y Gofrestr Ganolog o Ffotograffau

Awyrol yng Nghymru (CRAPW), Caerdydd wedi'u trefnu ar gyfer canol i ddiwedd mis Medi 2009, fel y gellir ymchwilio i gwestiynau penodol sy'n codi o'r gwaith maes.

Mae'r mapio manwl diweddaraf wedi'i gwblhau o nodweddion ac ardaloedd echdynnol/ nodweddion rheoli dŵr ychwanegol yn seiliedig ar argraffiad 1[af] mapiau OS a Tithe (Tasg 2). Nodwyd a mapiwyd nodweddion ychwanegol yn ôl yr arfer ac mae'r data a gasglwyd wedi'i ddiwygio a'i adolygu. Cynhaliwyd ymweliadau mynediad safle rhagarweiniol ac mae'r data a gasglwyd wedi'i ddiweddaru'n briodol; o ganlyniad mae ardaloedd arolwg maes penodol a dargedir wedi'u mireinio ymhellach, gyda chyfanswm o 33 o ardaloedd echdynnol wedi'u dewis ar gyfer ymweliadau a dargedir sy'n dod i gyfanswm o 517.4 ha o ardal. Yn ogystal mae 35 o nodweddion rheoli dŵr, yn bennaf y tu allan i'r ardaloedd olaf, hefyd wedi'u dewis ar gyfer ymweliadau maes. Dyfeisiwyd amcanion ymweliadau maes eisoes, trwy gynllunio a chynhyrchu *profforma* a chronfa ddata i baratoi ar gyfer ymweliadau safle (Tasg 3).

Er bod tywydd gwlyb a phroblemau gyda gorchudd llystyfiant wedi eu hoedi, mae'r ymweliadau maes a dargedir (Tasg 4), yn agos at gael eu cwblhau, gyda'r chwareli calchfaen mewn cyflwr cymharol dda ym Mhenderyn, sef yr ardal sylweddol gyntaf i gael ei harchwilio. Mae'r tirweddau echdynnol a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol yn gyffredinol yn fwy tameidiog ac ar raddfa lai na'r rheini a astudiwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn gyffredinol bu canlyniadau'r gwaith maes yn gymysg. Fodd bynnag, nodwyd bod amrywiaeth o nodweddion echdynnol (e.e. peiriandai, cytiau halio, incleiniau, chwareli, lefelau a thomennydd) wedi goroesi, a nifer ohonynt wedi goroesi mewn cyflwr da ar gyfer eu dosbarth. Mae'r ymweliadau maes wedi cadarnhau felly fod yr ardal yn cynnwys olion echdynnol mewn cyflwr da a allai fod o arwyddocâd cenedlaethol. Mae nodweddion rheoli dŵr arwyddocaol sy'n gysylltiedig â gwaith haearn yr ardal, fel prif gyflenwyddion, llifddorau, a safleoedd traphontydd dŵr, hefyd wedi'u nodi a'u cofnodi yn rhan o waith maes y flwyddyn gyfredol. Gobeithir cwblhau'r ymweliadau maes erbyn canol mis Medi. Paratowyd cronfa ddata'r safle ar yr un pryd â'r gwaith maes, ac mae wedi gwneud cynnydd da.



*Pl 8 Chwarel Penderyn: Golwg gyffredinol ar leoliad injan brêc*

**GGAT 89 Aneddiadau Cynhanesyddol a Rhufeinig a safleoedd eraill**

Cynlluniwyd y prosiect hwn i bara dwy flynedd: mae'r ail flwyddyn yn ymdrin â rhannau dwyreiniol a deheuol ein hardal, gan gynnwys awdurdodau unedol Caerdydd, Trefynwy, Casnewydd, a Bro Morgannwg. Yn wahanol i'r flwyddyn gyntaf, mae'r safleoedd yn yr ardaloedd awdurdod unedol hyn gan amlaf yn yr iseldiroedd, a disgwylir iddynt gynhyrchu cyfran gymharol isel o henebion gweladwy. Roedd y set ddata a luniwyd y llynedd ar gyfer asesu ail gyfnod y prosiect hwn yn cynnwys 149 o safleoedd yn y pedair ardal AU hyn. Mae adolygiad ffotograffiaeth awyrol wedi cynnwys archwilio 283 o ffotograffau yn cynnwys 29 o safleoedd, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cofnodi yn y CAH fel mannau darganfod. Roedd mwyafrif y rhain yn siomedig, gyda dim ond tystiolaeth amwys gan amlaf ar gyfer unrhyw strwythurau neu wrthgloddiau. Fodd bynnag, mae dau safle'n addawol iawn. Mae'n debyg fod un o'r rhain yn anheddiad â chyfundrefnau cae a nodweddion llinellol eraill; mae'r llall yn safle gwrthglawdd o fath mwy ansicr. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn helpu i dargedu safleoedd â photensial am ymweliadau maes. Cychwynnwyd y gwaith o adnabod perchenogion a gwneud gwaith maes. Mae gweithdrefnau ar gyfer chwiliadau Cofrestrfa Tir wedi newid, gan beri ei bod yn anoddach cael gwybodaeth uniongyrchol am ddaliadau gwledig a bydd gofyn dilyn ymagweddau mwy anffurfiol. Bydd cofnodion gwaith maes yn cael eu gwneud gan ddilyn yr un drefn â'r llynedd.

**GGAT 96 Castell Ystumllwynarth**

Cynhaliwyd cloddiad cymunedol tair wythnos yng Nghastell Ystumllwynarth mewn cysylltiad â Chyfeillion Castell Ystumllwynarth, Cyngor Dinas Abertawe a Phrifysgol Abertawe. Ar yr un pryd, cynhaliwyd arolwg topograffig o'r ardal o'i amgylch, a drefnwyd yn ymarfer hyfforddi i fyfyrwyr ysgol ar leoliad gwaith. Mae'r prosiect presennol yn dilyn arolwg geoffisegol a gomisiynwyd gan y Cyfeillion yn 2006

(Davies 2006), a oedd yn edrych ar botensial y castell a'i dir ar gyfer diogelu gwybodaeth archeolegol.
Ar ôl dadansoddi canlyniadau'r arolwg geoffisegol, penderfynwyd bod tair ardal yn arbennig lle byddai cloddiad yn arbennig o ddefnyddiol:

- Yr ardal i'r de o wal tŵr dwyreiniol y porthdy (y Bryncyn). Gallai cloddiad helpu i ddatrys cwestiwn statws adeiladu'r tŵr, a chanfod a oes modd dod o hyd i'r ffos sy'n ymddangos yn yr arolwg geoffisegol. Ymhellach i'r de ar y bryncyn, lleolwyd wal bosibl, ac ardal bosibl o falurion strwythur. Mae'r Bryncyn hefyd wedi cynhyrchu ôl crasu, ac mae rhan o wal bosibl ymhellach i'r de.
- Y gwrthgloddiau i'r gogledd o'r castell, y mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru'n tybio mai amddiffyniadau'r beili allanol ydynt, ond y mae Davies yn tybio mai chwarel bosibl ydynt. Byddai cloddiad yn pennu p'un o'r rhain sy'n gywir.
- Crib twmpath y Castell. Mae hwn hefyd wedi cynhyrchu ardaloedd posibl o darddiad archeolegol ar ei gopaon gogleddol a deheuol.

Fodd bynnag, gan fod amgylchoedd y castell yn lle cyhoeddus, gofynnodd y cyngor i bob cloddiad dros 0.15m (6") o ddyfnder gael ei gau y tu mewn i ffensys diogelwch. Am y rheswm hwn penderfynwyd y dylai'r cloddiad ganolbwyntio ar un ardal, i leihau cost ac aflonyddwch. Yr ardal hawsaf i'w ffensio oedd y Bryncyn, lle gellid defnyddio ffiniau presennol, a lle'r oedd canlyniadau archeolegol cadarnhaol yn fwyaf pendant ac felly ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn unol â hynny, agorwyd tair ffos, un (Ffos 1) yn mesur 4m x 20m a'r ddwy arall yn mesur 4m x 10m, yn ardal y Bryncyn.
Roedd Ffos 1 yn ymestyn o wal allanol estynedig y tŵr gorllewinol, ar hyd y ffos ac i'r bryncyn. Er credwyd yn wreiddiol y byddai'r tyrrau'n gromlinog i gyd, mae canlyniadau'r cloddiad yn nodi bod wal y tŵr yn cael ei chynrychioli gan strwythur unionlin a âi i'r dwyrain-gorllewin, ledled y ffos. Nid oedd yr un o'r cilfachau'n gorwedd yn ardal y ffos, ond nodwyd yr hyn a ystyrir yn gilfach orllewinol fel llwyfan gwrthglawdd bach. Mae'r wal gyfatebol i'r tŵr dwyreiniol yn weladwy fel darn byr o waith maen unionsyth yn syth i'r dwyrain o'r llwybr mynediad modern i'r porth. Y casgliad rhagarweiniol felly yw bod gan waelod y tyrrau fwtresi unionlin fel yn Nhŵr Marten yng Nghastell Cas-gwent.
Samplwyd ardal y ffos mewn dwy ffos archwilio, un ar ben deheuol y ffos a'r llall ryw 5m ymhellach i'r gogledd. Yn y ddau, canfuwyd bod y rwbel Fictoraidd a welwyd dros y ffos i gyd bron yn gorchuddio haen amaethu clai lleidiog, a oedd wedyn yn gorchuddio dyddodyn llaid mân, y tybir mai llenwad ffos ydoedd. Aethpwyd â'r ddwy ffos archwilio i lawr i ddyfnder o 1.2m, y mwyaf a ganiateir am resymau Iechyd a Diogelwch, heb ddod ar draws unrhyw newidiadau. Rydym yn dod i'r casgliad felly fod proffil sylfaenol y ffos wedi'i dorri'n lletach ac yn ddyfnach nag y nodir yn yr arolwg geoffisegol. Yn y dyfodol, gobeithiwn agor ardal ddigon mawr er mwyn archwilio proffil llawn y ffos, drwy dorri grisiau yn ochrau'r ffos.
Profwyd bod Ffos 2, i'r de o Ffos 1, yn gorwedd yn gyfan gwbl y tu allan i'r ffos. Yma roedd y rwbel Fictoraidd yn gorchuddio haen hwmig denau a oedd wedyn yn gorchuddio'r creigwely. Roedd y creigwely'n goleddfu am i lawr i'r gorllewin. Ar ben mwyaf gorllewinol y ffos, roedd y creigwely calchfaen wedi cochi, mae'n debyg drwy losgi. Roedd Ffos 3, ymhellach i'r de eto, yn gorwedd y tu allan i'r ardal a orchuddiwyd â'r rwbel Fictoraidd, ac roedd wedi'i gorchuddio'n gyfan gwbl â'r pridd hwmig. Roedd dau glawdd carreg bas, cul yn ymestyn i'r gogledd-de ledled y ffos o

dan y pridd hwn. Roedd y creigwely calchfaen eto'n agos at yr wyneb, yn arbennig yng nghanol y ffos; ar ben gorllewinol y ffos roedd y creigwely wedi'i dorri i ffwrdd i ffurfio pwll unionlin, ac roedd ochrau'r pwll wedi'u hiro â haen denau o forter calch. Tybir bod y pwll hwn yn gysylltiedig â chynhyrchu morter calch neu wyngalch.



*Pl 9 Castell Ystumllwynarth: Golwg Gyffredinol ar Gloddiadau*

Roedd y canfyddiadau yn bennaf yn Fictoraidd, ac yn gysylltiedig â'r rwbel yn Ffosydd 1 a 2. Fodd bynnag, roedd ychydig bach o grochenwaith canoloesol yn y tair ffos i gyd. Mae asesiad rhagarweiniol yn nodi dyddiad rhwng dechrau'r 13eg a chanol y 14eg ganrif, a bod nwyddau wedi'u mewnforio'n bresennol. Cyflwynodd Ffos 3

hefyd nifer o ddarnau a allai fod yn waith metel canoloesol, er ein bod yn aros am gadarnhad arbenigol yn eu cylch.

**Cyfeiriad** Davies, W, 2006 *A report on geophysical surveys at Oystermouth Castle, Swansea, Gower* adroddiad heb ei gyhoeddi i Gyfeillion Castell Ystumllwynarth

## CONTRACTAU GWYDDONOL A ARIENNIR GAN CADW

Yn 2008—2009 ceisiwyd cyngor o ran samplu palaeoamgylcheddol o ran y gwaith cofnodi a samplu ym Mrynmill (GGAT 88).

## ADOLYGIAD ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDI

Adroddiadau 'deunydd darllen anfasnachol' ar waith cymorth grant

Mae'r gronfa ddata o'r holl adroddiadau llenyddiaeth anfasnachol a gynhyrchwyd ar gyfer Cadw: Henebion Cymru wedi'i chynnal a'i chadw, a chyflenwyd copi i'r Arolygiaeth. Anfonir diweddariad ar ôl cyfarfod yr Adolygiad Hanner Blwyddyn. Yn y gorffennol, lluniwyd yr adroddiadau canlynol:-

*Arolwg Trefol Aberdâr* Adroddiad GGAT Rhif 2008/033

*Pennu Nodweddion Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf rhan 1 a 2.* Adroddiad GGAT Rhif 2008/043

*Pennu Nodweddion Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf rhan 1 a 2 (2il ddrafft)* Adroddiad GGAT Rhif 2008/072

*Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru Blwyddyn 5: Dyffrynnoedd Uchaf Sirhywi, Ebwy ac Ebwy Fach* Adroddiad GGAT Rhif 2009/001

*Aneddiadau Gwledig Rhufeinig a Diamddiffyn Cynhanesyddol Diweddarach yn Ne Ddwyrain Cymru.* Adroddiad GGAT Rhif 2009/013

*Aneddiadau Gwledig Rhufeinig a Diamddiffyn Cynhanesyddol Diweddarach yn Ne Ddwyrain Cymru. Adroddiad cofrestru.* Adroddiad GGAT Rhif 2009/014

*Cofnodi Brys Nodwedd Bren oddi ar Frynmill, Bae Abertawe, Abertawe* Adroddiad GGAT Rhif 2009/015

*Pennu Nodweddion Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf rhan 1 a 2 (Fersiwn derfynol)* Adroddiad GGAT Rhif 2009/016

*Cloddiad ac arolwg yn Church Hill, Penmaen, Abertawe* Adroddiad GGAT Rhif 2009/017


*Tirweddau Gwaith Haearn Diwydiannol De Ddwyrain Cymru Blwyddyn 5: cynigion cofrestru* Adroddiad GGAT Rhif 2009/021

*Bragdy Merthyr Tudful (Bragdy Vulcan) Heol Aberhonddu Merthyr Tudful* Adroddiad GGAT Rhif 2009/022

# ATODIAD 1 — ADOLYGIAD O GYFLAWNI AMCANION LlCC

Yn ein cynigion prosiect ar gyfer 2008—2009 gwnaethom nodi sut y byddai'r rhain ymhlith pethau eraill yn mynd i'r afael â rhai o amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru a, thrwy hynny, o fudd i boblogaeth De Ddwyrain Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith rydym bellach yn adolygu llwyddiant y prosiectau wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r rhaglen wedi golygu bod modd cadw staff Amgylchedd Hanesyddol proffesiynol graddedig medrus yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith a wneir gan y staff hwn yn cynhyrchu cyflogaeth archeolegol a chysylltiedig arall boed gan yr Ymddiriedolaeth neu sefydliadau eraill. Felly, er enghraifft, mae cyngor a roddwyd gan y gwasanaeth rheoli cynllunio archeolegol (3 staff) sy'n mynnu bod ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ychwanegol am yr adnodd archeolegol wedi golygu bod contractwyr archeolegol wedi'u comisiynu gan yr ymgeiswyr. Yn yr un modd, roedd amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio a oedd yn mynnu bod gwaith archeolegol yn cael ei wneud yn ystod y datblygiad hefyd yn mynnu bod archeolegwyr yn cael eu cyflogi. Mae'n anodd cyfrifo sawl swydd amser llawn a rhan-amser a grëwyd neu a gynhaliwyd gan y broses gynllunio, ond amcangyfrifir bod cloddiadau ac ymchwiliadau eraill a gynhaliwyd gan sefydliadau archeolegol, yn rhai mawr a bach, ar draws y rhanbarth wedi arwain at gynhyrchu cyfwerth â 30-40 o swyddi amser llawn. Graddedigion, a chanddynt raddau pellach neu gymwysterau proffesiynol ychwanegol weithiau, sy'n dal mwyafrif y swyddi hyn.




*Pl 10 Siart Seren Diwrnod Agored GGAT*

Nid yw'n hawdd cofnodi effaith rhai darnau o'n gwaith, ac efallai na fydd byth yn hawdd, ac mae prinder unrhyw ddata astudiaeth hydredol ystyrlon. Yn wir i asesu effaith llawer o'n gwaith yn effeithiol byddai angen defnyddio mecanweithiau ar wahân i'r rheini sydd ar gael yng nghwmpasiad, cost arwahanol, a therfynau amser cyllid prosiect. Dyna fyddai'n wir ar gyfer ein prosiect Gwaith Haearn sydd â chanlyniadau clir a phwysig sy'n cefnogi cyflawni pob math o amcanion cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, er mwyn mesur y rhain mewn modd ystyrlon byddai angen cyfnod maith o arolwg a gynlluniwyd yn ofalus ac a ariannwyd yn briodol.

Ymdrechwyd yn 2007—2008 i gael adborth drwy holiaduron mewn digwyddiadau allgymorth. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiad y cyhoedd i lenwi ffurflenni yn golygu na ellid casglu digon o ddata manwl i fod yn ystadegol arwyddocaol. Yn arbennig, cawsom gymaint o anhawster yn perswadio'r cyhoedd i lenwi holiaduron safonol ar foddhad cwsmeriaid fel y gallai'r ymdrech i wneud hyn, hyd yn oed, fod wedi niweidio canlyniad bwriedig yr ymdrech i'w mesur.
Ers hynny rydym wedi cynllunio holiadur symlach i brofi poblogrwydd gweithgareddau o ran ystod oedran, ac a wnaethant fwynhau'r digwyddiad ar y cyfan. Anogir pobl i'w llenwi drwy wobrau; mae hyn yn cael ei brofi. Yn y cyfamser, mae defnyddio dulliau eraill fel siartiau seren yn dangos yn gyflym a ydym yn 'taro deuddeg' a bu'r canlyniadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan.

Mae'r mesuriadau'n gliriach ar gyfer gwaith cynllunio, felly yn 2008-2009 roedd 68 o achosion lle bu angen gwybodaeth ychwanegol am yr adnodd archeolegol gan yr ACLl, 444 caniatâd cynllunio wedi'u rhoi ag amodau yn mynnu bod gwaith archeolegol yn cael ei wneud yn ystod y datblygiad a 166 o adroddiadau am waith archeolegol a wnaed yn y rhanbarth wedi'u cofrestru gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Rhoddwyd cyngor manwl ar effaith datblygiad arfaethedig ar yr adnodd archeolegol ar 1530 o geisiadau. Er bod baich yr achosion cyffredinol yn llai oherwydd effeithiau'r dirwasgiad, dim ond ychydig a ostyngodd ar gyfer cymathu cronfa ddata a gwaith paratoi caniatâd amodau cynllunio.
Bu ein Gwasanaeth Rheoli Cynllunio Archeolegol yn cynorthwyo'r holl Awdurdodau Unedol yn y Rhanbarth i ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol gan sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi'r CDLlau a bod Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gynnal. Ni fydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu cydnabod yn llawn nes bod y CDLlau wedi'u mabwysiadu ond gwnaethom fynychu mwy nag 20 o gyfarfodydd a pharatoi sylwadau manwl ar 12 dogfen mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol.
Hefyd wrth hyrwyddo *amgylchedd cynaliadwy* mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu at ymgynghoriad pellach ar y Mesur Morol, gwneud ymatebion manwl iawn i Asiantaeth yr Amgylchedd ar Gynlluniau Rheoli Risg Llifogydd, a thrwy ei gymorth i'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol a'i chynrychiolaeth arni mae wedi cyfrannu tuag at ddatblygu Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol i Gymru. Yn ymylol rydym hefyd wedi rhoi sylwadau ar y Mesur Treftadaeth drafft a dynnwyd yn ôl bellach a'r Safonau ar gyfer Archifau Cymru.
Er bod y berthynas waith â'r Awdurdodau Unedol wedi'i hen sefydlu ar gyfer gwaith rheoli cynllunio archeolegol, mewn meysydd eraill o waith amgylchedd hanesyddol mae gennym bartneriaethau cryf â rhai, ond ar gyfer eraill mae llawer o sylfeini i'w gosod o hyd. Mae angen annog datblygiad gan Awdurdodau Unedol ac adrannau llywodraeth eraill a sefydliadau a gefnogir gan y llywodraeth â chylchoedd gwaith sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol, neu sy'n elwa ar ryngweithio ag ef, o gyfeiriadau a safbwyntiau 'o'r brig i'r gwaelod' yn ogystal ag 'o'r gwaelod i fyny'. Serch hynny, gellir ystyried bod y partneriaethau rydym wedi'u datblygu â chyrff llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol, sefydliadau trydydd sector a chyrff sector preifat yn cynorthwyo'r broses o gyflawni amcanion ar gyfer *cenedl gref a hyderus* a *chymdeithas lewyrchus*.
Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwybodaeth rheoli treftadaeth drwy gynllun Tir Gofal, sy'n hyrwyddo cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol. Yn yr un modd, mae'r sgriniad cychwynnol o geisiadau Gwell Coetiroedd i Gymru yn caniatáu ar gyfer adnabod y rheini lle bo angen gwybodaeth rheoli treftadaeth. Er bod cysylltiadau â'r Comisiwn Coedwigaeth wedi'u hen sefydlu, a bod cyfleusterau yn eu

lle i alluogi gwaith maes dilynol i wirio data a gasglwyd ar fwrdd gwaith os oes angen, mae trosglwyddo cyfrifoldeb am y gwaith Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r Isadran Taliadau Gwledig wedi gweld y gwaith hwn yn darfod a gostyngiad cydredol yn amddiffyniad yr Amgylchedd Hanesyddol gwledig.
Er nad oes gennym ystadegau effaith ar gyfer rhai meysydd o'n gwaith efallai, nac yn gallu eu cynhyrchu, gallwn wneud nifer o sylwadau ar sut mae rhai prosiectau a gweithgareddau wedi'u cyflenwi i ofynion dymunol.
Mae ein prosiect Gwaith Haearn yn cyfrannu at lawer o amcanion Cymru'n Un, gyda data a ddaw o'r prosiect ar gael i lywio penderfyniadau strategol. Mae'r prosiect wedi caniatáu ar gyfer gwneud datganiadau awdurdodol ar arbenigrwydd Rhanbarth De Ddwyrain Cymru o ran ei dirweddau a'i dreftadaeth ddiwydiannol, gan lywio'r Cynllun Gofodol. Mae'r prosiect wedi'i ailffurfio i gysylltu'n benodol ag Ardal Menter Blaenau'r Cymoedd; un o elfennau arbennig y rhaglen oedd rhoi gwybod i'r rheini dan sylw am ganlyniadau'r prosiect hyd yma, pwysigrwydd y safleoedd, ac yn fwy arbennig y tirweddau gan gynnwys llawer o fân elfennau a ddiystyrir yn aml, y mae eu habsenoldeb yn lleihau cyfanrwydd a, sut y gall astudio data yn gynnar a'i ymgorffori mewn cynllunio strategol osgoi gwrthdaro diweddarach.
Bu'r prosiect hefyd yn gyfle i gynhyrchu data gwybodus ac awdurdodol i'w ddefnyddio gan bob math o gwmnïau wrth gyflawni'r Weledigaeth a'r Egwyddorion Strategol (yn arbennig gweledigaethau 1 a 2) a chynorthwyo'r Strategaeth Weithredu (yn arbennig Datblygu Ymdeimlad o Le, Cyfeirio Diwylliannol, ac yn fwy arbennig Profiad Treftadaeth Ddiwydiannol De Cymru, Dehongli'r Dirwedd Ddiwylliannol), fel y nodir yn y Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol, gan fod y prosiect yn helpu i hybu ymwybyddiaeth am arbenigrwydd rhai cymunedau.
Yn yr un modd mae'r gwaith a wnaethom i ddeall Cymeriad Trefol Aberdâr yn cyfrannu at lawer o strategaethau Cymru'n Un, efallai'n fwyaf arwyddocaol y Cynllun Gofodol, a'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru. Roedd pennu nodweddion trefol, mewn perthynas â'r cyntaf, yn galluogi datganiadau awdurdodol i gael eu gwneud ar arbenigrwydd yr ardal, ac mewn perthynas â'r olaf mae'n darparu arf i fedru rhoi camau ar waith i gynnal a gwella ansawdd ac amrywiaeth y dirwedd hanesyddol a rheoli effaith er mwyn diogelu cymeriad a nodweddion diwylliannol unigryw, gan gynnwys stoc adeiladau.
Wrth hyrwyddo diwylliant cyfoethog ac amrywiol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau cyfrannu at hybu ymwybyddiaeth am gyfoeth tirweddau hanesyddol ac eglwysi yn ein hardal drwy baratoi arddangosfeydd newydd. Mae'r cyntaf eisoes wedi'i gosod mewn sawl lle ac mae'r llall wedi'i gynllunio i helpu i hyrwyddo menter Drysau Agored yn 2008—2009. Gellir gweld copïau o'r arddangosfeydd ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae cynhyrchu taflenni dwyieithog a mowntio tirwedd hanesyddol Llancarfan, Bro Morgannwg a thirwedd hanesyddol Dyffryn Gwy Isaf ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn bodloni Amcanion LlCC 'Cymru'n Un Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru' drwy ledaenu canlyniadau'r prosiectau, sy'n cryfhau, hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth gyfoethog ac amrywiol Cymru. O ran 'Amgylchedd Hanesyddol Cymru Tuag at Ddatganiad Strategol' mae lledaenu'r prosiectau HLC hyn yn helpu i roi arbenigrwydd i gymunedau arbennig. Mae'r prosiectau a ledaenir hefyd yn gymesur â llawer o ymrwymiadau penodol LlCC, fel y Cynllun Gofodol a'r Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol drwy ddatblygu, neu yn wir ailddeffro ymdeimlad o le.
Yn fwy cyffredinol, mae llawer o'n gweithgareddau allgymorth a gefnogir gan Cadw, ein presenoldeb mewn sioeau, arddangosfeydd, cyflwyniadau gwe, teithiau cerdded, darlithiau ac ati yn cefnogi dysgu gydol oes. Yn arbennig yn 2008—2009 cyfrannodd

ein prosiect rheoli treftadaeth at yr agenda hwn drwy gyflenwi gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol i gymunedau ac aelodau unigol o'r cyhoedd, a'u cynorthwyo i ddatblygu prosiectau i ymchwilio i hanes ac archeoleg eu hardaloedd. Rydym hefyd wedi cyfosod gwybodaeth o weithgareddau parhaus yr Ymddiriedolaeth mewn fformatau hawdd eu hailddefnyddio gan alluogi mathau electronig a thraddodiadol o ddosbarthu gwybodaeth. Mae hyn felly wedi ein galluogi i ddefnyddio Web 2.0 yn ddynamig yn ogystal â chyflwyniadau wyneb yn wyneb.

Yn ogystal â rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr gael profiad o archwilio archeolegol mae ein prosiectau â ffocws cymunedol wedi darparu cyflwyniad gwerthfawr i waith maes archeolegol i fyfyrwyr sy'n ategu eu hastudiaethau academaidd yn y brifysgol ac yn darparu sgiliau newydd iddynt. Drwy integreiddio staff proffesiynol, gwirfoddolwyr, myfyrwyr ac academyddion drwy ddiddordeb cyffredin, cryfhawyd cysylltiadau a synergedd rhwng haenau traws-gymdeithasol.

Yn olaf, edrychwn ymlaen at gyflwyno Datganiad Strategol ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru a ragwelir gyda chynlluniau gweithredu ategol yn gysylltedig â chyflawni amcanion traws-sector er mwyn gwella Cymru a'i phreswylwyr. Drwy adrodd am ein cyfraniad at wella ansawdd bywyd yn y wlad mewn perthynas â chynllun cytûn ar gyfer y sector, dylid cael crynoder nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd.